



Adroddiad Stiwardiaeth Blynyddol



Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ail Adroddiad Stiwardiaeth Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gweithgarwch stiwardiaeth dros y flwyddyn, yn nodi'r camau yr ydym wedi'u cymryd ar y cyd â'n partneriaid a rhai o'r canlyniadau a gyflawnwyd, ac yn dangos ein bod yn cydymffurfio â Chôd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU.

Roeddem yn falch iawn o gael ein henwi fel un o lofnodwyr y Côd Stiwardiaeth yn gynharach eleni ond rydym yn cydnabod mai dim ond man cychwyn oedd ein hadroddiad cyntaf, sefyllfa y gallwn barhau i ddysgu a gwella ohoni. Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar atgyfnerthu yn ystod y flwyddyn, gan adolygu ein polisïau buddsoddi cyfrifol ac adeiladu ar ein prosesau yr ydym wedi'u rhoi ar waith i sicrhau y gall ein trefniant cyfuno ddiwallu anghenion ein buddiolwyr yn well.

Yn sicr doedd y flwyddyn ddim heb ei heriau. Parhaodd y DU i deimlo effeithiau'r pandemig COVID-19, chwyddiant cynyddol, a dechrau'r gwrthdaro rhwng Rwsia a Wcráin. Er gwaethaf effeithiau parhaol y pandemig, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi parhau i gyflawni ein credoau buddsoddi cyffredin, yn enwedig drwy ein ffocws ar fuddsoddi cyfrifol a risg hinsawdd.

Rydym wedi rhoi mwy o ffocws ar oruchwylio a herio ein darparwyr, gan sicrhau bod gennym y wybodaeth gywir ar bob un o'n His-gronfeydd. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliadau dwfn ar ein His-gronfeydd ac rydym yn parhau i fod yn hapus gyda'r dull a gymerir gan ein rheolwyr buddsoddi.

Cyflwynwyd ein troshaen carbon isel ar yr Is-gronfa Cyfleoedd Bydeang ar ddechrau'r flwyddyn, gan eithrio cwmnïau sy'n dibynnu ar lo i gynhyrchu refeniw a chyflawni lleihad o 25% yn ôl troed carbon yr Is-gronfa. Rydym wedi bod yn archwilio sut y gallai hyn gael ei ymestyn i Is-gronfeydd eraill - rhywbeth yr ydym yn disgwyl ei weld yn datblygu dros y flwyddyn i ddod.



Gan ein bod am ehangu'r cynigion sydd gennym ar lefel y Gronfa i wasanaethu anghenion cyfunol ein Hawdurdodau Cyfansoddol orau, gwnaethom lansio Is-gronfa Ecwiti'r Farchnad Ddatblygol dros y flwyddyn. Rydym hefyd yn falch o fod wedi symud ymlaen â'r gwaith o adeiladu ein cynigion marchnadoedd preifat, ar ôl gwneud penodiadau ar ddyranwyr seilwaith a dyledion preifat. Mae gwaith yn parhau ar ddod o hyd i ddarparwyr ar gyfer ein His-gronfeydd ecwiti preifat ac eiddo.

Mae buddsoddi i sicrhau canlyniadau mwy cynaliadwy hefyd wedi bod yn ystyriaeth wrth ddatblygu ein His-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy. Rydym wedi mwynhau deialog gadarnhaol gyda'n holl randdeiliaid i ddeall eu gofynion. Edrychwn ymlaen at allu lansio'r Is-gronfa hon dros y flwyddyn nesaf a byddwn yn darparu rhagor o fanylion am hyn yn ein diweddariad blynyddol nesaf.

Parhaodd Robeco â'u rôl fel darparwr stiwardiaeth, gan bleidleisio ar ran holl asedau ecwiti gweithredol Partneriaeth Pensiwn Cymru gan hefyd gynnal gweithgarwch ymgysylltu ar draws holl Is-gronfeydd gweithredol y Gronfa. Dros y flwyddyn, gwnaethom bleidleisio ar dros 10,500 o wahanol benderfyniadau ac roedd gan Robeco 280 o ymgysylltiadau unigol ar ein rhan. Mae ein ffocws ein hunain ar newid yn yr hinsawdd yn cael ei adlewyrchu'n gryf yn nifer o themâu ymgysylltu Robeco gan gynnwys y thema newydd 'Cyflymu tuag at Gytundeb Paris', sy'n targedu'r allyrwyr gwaethaf. Trwy'r gwaith hwn, credwn y gallwn barhau i gefnogi newid yn y byd go iawn.

Mae strwythur unigryw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn pwysleisio cydweithio nid yn unig ar draws yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sylfaenol, ond hefyd ar draws ein darparwyr a rhanddeiliaid eraill. Rydym yn falch iawn o'r cynnydd y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi parhau i'w wneud dros y flwyddyn ddiwethaf a gobeithiwn y bydd y 12 mis nesaf yr un mor llwyddiannus.



Chris Weaver

Cadeirydd, Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

Hydref 2022

Trosolwg



Buddsoddiadau gweithredol **£11bn**



Cyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd **10,927**




Cyfanswm nifer yr ymgysylltiadau **280**



Cronfa'r Flwvddyn Buddsoddiadau

Sub-funds:
asset allocation by asset class



■ Equities ■ Fixed income

Blaenoriaethau



Rheoli risg hinsawdd



Datgeliadau risg hinsawdd



Gwella trefn lywodraethu
cyfranddalwyr



Amrywiaeth ar y Bwrdd




Cadw a datblygu cyfalaf dynol



Tâl prif swyddogion:
canlyniadau hirdymor

Sub-funds:
asset allocation by geography



■ Asia Pacific ex Japan ■ Emerging Markets
■ Europe ex UK ■ Japan
■ North America ■ UK
■ Cash

Pwy ydym ni

Ei cronfa

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017 ac mae'n gydweithrediad rhwng yr wyth Awdurdod Cyfansoddol sy'n cwmparu Cymru gyfan. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru ei hun yn un o wyth cronfa asedau ledled Cymru a Lloegr sy'n gyfrifol, ar y cyd, am reoli a stiwardio asedau ar gyfer cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol sy'n ffurfio Partneriaeth Pensiwn Cymru fel a ganlyn:



Mae gan yr Awdurdodau Cyfansoddol hanes hir a llwyddiannus o gydweithio, sy'n dyddio nôl i'r amser cyn menter gyfuno'r Llywodraeth a ffurfio Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn falch o'n hunaniaeth unigryw fel Cronfa - mae ei Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli ac yn rhychwantu Cymru gyfan, gan greu aliniad daearyddol o fuddiannau. Mae bod yn ddemocrataidd atebol yn golygu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn darparu trefn lywodraethu gref a thryloywder y sector cyhoeddus ar ei orau.

Ei haelodau

Mae aelodaeth o'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n ffurfio'r Gronfa gyfunol yn wirfoddol. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

- Cyrff cofrestredig, sef awdurdodau lleol a chyrrff tebyg y mae gan eu staff hawl i fod yn aelodau yn awtomatig.
- Cyrff a gaiff eu derbyn, sy'n cymryd rhan o dan delerau cytundeb derbyn rhwng y Gronfa Bensiwn a'r sefydliad perthnasol. Mae cyrrff a gaiff eu derbyn yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol yn dilyn allanoli i'r sector preifat

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwasanaethu cyfanswm o bron i 404,000 o aelodau ar draws yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ei model

Mae model gweithredu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn seiliedig ar ein credoau buddsoddi cyffredin, ac mae wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg a darparu gwerth am arian, a dod ag arbenigedd gorau'r maes i gefnogi'r gwaith o reoli'r Gronfa yn barhaus.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Gweithredwr allanol sef Link Fund Solutions (Link), mewn partneriaeth â'n Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau penodedig, Russell Investments (Russell). Mae model gweithredu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod yr angen am arbenigedd allanol er mwyn cyflawni amcanion. Er mwyn cryfhau ein hymdrechion stiwardiaeth ar y cyd, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymgysylltu â Robeco fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, gan ddod â llais blaenllaw i weithredu uchelgeisiau stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn parhau i ddibynnu ar Hymans Robertson fel Ymgynghorydd Goruchwylio.

Gan fod ehangder yr asedau dan reolaeth wedi tyfu a bod ein ffocws wedi symud tuag at gyflwyno datrysiadau'r farchnad breifat, rydym hefyd wedi ymgysylltu â bfinance i'n cynorthwyo i ddod o hyd i bartneriaid hirdymor priodol.

Ei pwrpas, ei gwerthoedd a'n diwylliant

Rydym yn ffodus bod gennym lefel uchel o gydweithio rhwng ein holl randdeiliaid ac rydym yn teimlo bod cyfraniadau parhaus yr Awdurdodau Cyfansoddol tuag at gyflawni ein nodau cyffredin yn un o'n cryfderau allweddol. Yn erbyn y cefndir hwn, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, drwy ymgynghori â phob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol, wedi ffurfio'r prif amcanion canlynol:

- Darparu trefniadau cyfuno sy'n galluogi cronfeydd unigol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain, lle'n ymarferol.
- Cyflawni arbedion cost sylweddol ar gyfer Cronfeydd Pensiwn cyfranogol wrth wella neu gynnal perfformiad buddsoddi ar ôl talu ffioedd.
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i oruchwyllo gweithgareddau'r Gronfa.
- Gweithio'n agos gyda chronfeydd eraill er mwyn archwilio'r buddion y gallai pob rhanddeiliad yng Nghymru eu cael trwy ddatrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posibl.
- Cyflwyno fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'n prif randdeiliaid: yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynlluniau.

Ein credoau buddsoddi

Credoau buddsoddi

- ✓ Rôl Partneriaeth Pensiwn Cymru yw hwyluso a darparu platfform cyfuno buddsoddiadau er mwyn gallu gweithredu buddiannau'r Awdurdodau Cyfansoddol.
- ✓ Dylai trefn lywodraethu dda arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Mae cydweithio mewnol rhwng yr Awdurdod Cynnal a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru. Gall cydweithio allanol fod yn fuddiol hefyd er mwyn cyflawni arbedion cost a chanlyniadau gwell i randdeiliaid.
- ✓ Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau effeithiol i liniaru risg i'r hinsawdd, ynghyd ag ystyried a rheoli materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ehangach ar sail tystiolaeth, arwain at well canlyniadau i randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o wella adnoddau, galluedd ac arbenigedd Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Bydd tryloywder ynghylch ffioedd a chostau yn helpu'r broses o wneud penderfyniadau ac yn gwella canlyniadau i randdeiliaid.
- ✓ Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn helpu Partneriaeth Pensiwn Cymru a'i Hawdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu.
- ✓ Bydd ymagwedd hyblyg at strwythur cyfuno a dulliau gweithredu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn galluogi'r Gronfa i addasu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid.

Credoau Buddsoddi Cyfrifol

- ✓ Rhaid i'r ymddygiadau Buddsoddi Cyfrifol yr ydym am i'n holl randdeiliaid eu harddangos gael eu harwain gan Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Mae integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, mewn prosesau buddsoddi yn rhag-amod ar gyfer unrhyw strategaeth o ystyried y posibilrwydd i golli arian.
- ✓ Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru ar ei mwyaf effeithiol fel buddsoddwr sy'n gweithio dros newid o'r tu mewn, yn enwedig mewn cydweithrediad â buddsoddwyr eraill o'r un anian, yn hytrach na fel ymgyrchydd sy'n lloïo am newid o'r tu allan.
- ✓ Bydd ein heffaith ar ymddygiadau corfforaethol ar ei chryfaf pan siaradwn ag un llais.
- ✓ Mae trosolwg effeithiol o arferion Buddsoddi Cyfrifol yn galw am ddatgelu clir a mesur data cynhwysfawr.

Credwn fod ein cryfder i'w gael yn ein credoau buddsoddi cyffredin a'n gallu i gydweithio tuag at gyflawni amcanion ar y cyd er budd holl randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru. Adlewyrchir y rhain nid yn unig yn y model gweithredu a ddewiswyd gan Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys yr angen am arbenigedd allanol, ond hefyd yn y pwysigrwydd yr ydym yn ei roi i waith Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru (RISG), sy'n cwrdd ddwywaith bob chwarter i ymgysylltu'n benodol ar amcanion a chanlyniadau Buddsoddi Cyfrifol cyfunol y Gronfa. Mae'r set lawn o gredoau cyffredin i'w gweld yn [Llawlyfr Llywodraethu'r Gronfa](#).

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn diffinio Buddsoddi Cyfrifol o fewn y Polisi fel 'arferion buddsoddi sy'n integreiddio'r ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sydd i'w hystyried mewn prosesau rheoli buddsoddiadau ac arferion perchnogaeth, gan gydnabod y gall y ffactorau hyn gael effaith faterol ar berfformiad ariannol'. Uchelgais hirdymor Partneriaeth Pensiwn Cymru yw dangos arweiniad ar Fuddsoddi Cyfrifol wrth reoli asedau ar gyfer ac ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol, gyda set o gredoau Buddsoddi Cyfrifol sy'n sail i brosesau gwneud penderfyniadau a llywodraethu.

Caiff y credoau hyn eu hadolygu'n flynyddol, a chynhaliwyd yr adolygiad diwethaf yn Chwarter 4 2021. Un nodwedd allweddol o'n credoau buddsoddi yw defnyddio arbenigedd allanol i gyflawni canlyniadau buddsoddi. Mae hyn yn arbennig o wir pan ddaw'n fater o'n hymrwymiad i stiwardiaeth trwy benodi Robeco yn Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae penodiad Robeco wedi arwain at ffocws penodol ar stiwardiaeth, sydd hefyd wedi hwyluso datblygiad un polisi pleidleisio ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae gweithredu'r polisi hwn o 1 Ionawr 2021 wedi rhoi'r gallu i Partneriaeth Pensiwn Cymru siarad ag un llais ac, wrth i'r polisi hwn ddatblygu trwy gael mewnbwn parhaus gan yr Awdurdodau Cyfansoddol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl gweld ffocws cynyddol ar faterion sy'n bwysig i'n rhanddeiliaid.


Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried bod y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf er mwyn rhoi sylw i stiwardiaeth wedi bod yn gadarnhaol. Gan fod pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol wedi'u cynrychioli ar RISG, rydym wedi sicrhau y gall pob un o'n rhanddeiliaid uniongyrchol gyfrannu at benderfyniadau. Mae'r drefn hon, ynghyd â'n fforymau eraill, yn golygu y gall pob Awdurdod Cyfansoddol godi materion o bwys lleol, gyda'r materion wedyn yn cael eu rhoi mewn trefn blaenoriaeth er mwyn gweithredu. Er enghraifft, mae RISG wedi ymateb i'r angen am oruchwyliaeth effeithiol ac, wrth weithio gyda'n Darparwyr Gwasanaethau, wedi gweithio i ddatblygu proses fonitro fanylach, sydd yn y pen draw yn caniatáu mwy o dryloywder a mwy o herio. Bydd hyn yn galluogi Partneriaeth Pensiwn Cymru i gyflawni cred graidd arall, sef yr angen am gyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol.

Ein credoau yn ymarferol

Cafodd holl randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru eu tristáu gan ymosodiad Rwsia ar Wcráin a'r effaith ar bobl Wcráin. Bu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn trafod y camau y gellid eu cymryd yn realistig gyda golwg ar y lefel fach o fuddsoddiadau a oedd yn cael eu dal yn y rhanbarth a phenderfynwyd ar y cyd mai dadfuddsoddi oedd yr opsiwn mwyaf priodol ar y pryd. Roeddem o'r farn nad oedd ymgysylltu yn opsiwn ymarferol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac rydym yn parhau i fod o'r farn honno. Mae ein datganiad ar y sefyllfa hon i'w weld [yma](#).

Mae gan Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd ddeialog barhaus gyda gwahanol bleidiau ar bwnc newid hinsawdd a thanwydd ffosil, gan gynnwys Cyfeillion y Ddaear. Mae safbwynt Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i fod yn un o ddatblygu'r cyswllt sydd gennym â'r cwmnïau yr ydym yn buddsoddi ynddynt, gyda newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn ganolbwynt allweddol i'n gweithgarwch ymgysylltu. Fodd bynnag, rydym yn parchu barn pobl eraill a'r angen am bontio, a chredwn y gallwn, drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, adeiladu ein dealltwriaeth a'n camau gweithredu. Mae hyn wedi dod i'r amlwg yn y dull a gymerwyd i ddatblygu ein His-gronfa Ecwiti Cynaliadwy, a fydd yn ymgorffori nod penodol o gyd-fynd â Chytundeb Paris.

Yr Awdurdodau Cyfansoddol yw rhanddeiliaid pwysicaf Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nid yn unig y maent yn cynrychioli aelodau gwreiddiol Partneriaeth Pensiwn Cymru, nhw hefyd yw prif fuddiolwyr y gronfa. Ffurfiodd yr Awdurdodau Cyfansoddol Gyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru er mwyn goruchwyllo'r Bartneriaeth ac adrodd ar ei gweithgarwch. Mae nifer o faterion ynglŷn â gwneud penderfyniadau wedi'u neilltuo i'r Awdurdodau Cyfansoddol, tra bod y gweddill yn cael eu hystyried yn faterion i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu.



Mae Cytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manylu ar sut y mae'r Bartneriaeth yn ymdrin â phob agwedd ar lywodraethu, gan ddiffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ein Haelodau, Pwyllgorau a Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau ac sy'n rhoi ystyriaeth i ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Cytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru i'w weld yn ein [Llyfryn Llywodraethu](#).

Adnoddau mewnol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu fel Awdurdod Cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a chysylltu o ddydd i ddydd â'r Gweithredwr ar ran holl gronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae dau aelod o staff - Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, a'r Uwch-swyddog Gwasanaethau Ariannol - yn gyfrifol am gyflawni'r rôl hon.

Cyd-bwyllgor Llywodraethu

Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Rhaid i'r aelod etholedig fod yn aelod o'r Awdurdod Cyfansoddol ac o Bwyllgor Pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw. Caiff y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu cylchdroi'n flynyddol. Caiff aelod cyfetholedig o gynllun y bwrdd pensiynau (heb bleidlais) hefyd ei gynrychioli ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gyfuno buddsoddiadau'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Gweithgor Swyddogion

Sefydlwyd y Gweithgor Swyddogion gyda'r bwriad o gynnig cefnogaeth a chynghor i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r Gweithgor Swyddogion yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn debyg i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, mae gan y Gweithgor Swyddogion hanes da o ymgysylltu a phresenoldeb. Mae o leiaf un cynrychiolydd o bob Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion ac mae'n gyffredin gweld y Swyddog Adran 151 a'r Ymarferydd ar gyfer pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol.

Mae darparwyr ac ymgynghorwyr allanol Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion, ac yn rhoi cefnogaeth neu gyngor yn ôl y galw. Ar hyn o bryd mae Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru, y Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau a'r Ymgynghorydd Goruchwylio i gyd yn mynychu holl gyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion. Mae partiön eraill megis ymgynghorwyr tryloywder costau, cynrychiolwyr Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF) ac Archwilio Cymru hefyd yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion pan fo angen.

Mae aelodau'r Gweithgor Swyddogion hefyd yn cyfarfod bob pythefnos. Defnyddir y cyfarfodydd rhithwir hyn i ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Gweithgor Swyddogion ac i symud gweithgareddau yn eu blaen yn ôl yr angen. Mae'r trefniant hwn yn parhau i feithrin cydweithio rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol a chyflenwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac mae wedi golygu y gellir trafod materion stiwardiaeth mewn ffordd ad hoc yn ôl y galw.

Ein His-Grwpiau pwrpasol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd wedi sefydlu Is-grwpiau pwrpasol i ddatblygu neu symud yn eu blaenau rai elfennau o gynllun gwaith y Partneriaeth. Mae'r holl Is-grwpiau yn cael eu ffurfio o is-adran o'r Gweithgor Swyddogion ac maent yn gyfrifol am adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r Gweithgor cyfan. Yr Is-grwpiau hyn yw:

- RISG, sy'n gyfrifol am ffurfio a chyflwyno Cynllun Gwaith Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ogystal â chysylltu gyda Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu'r Partneriaeth.
- Yr Is-grŵp Risg, sy'n gyfrifol am fonitro, cynnal a gweithredu Cofrestr a Pholisi Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Yr Is-grŵp Marchnadoedd Preifat, sy'n gyfrifol am ffurfio a datblygu Is-gronfa/eydd Marchnadoedd Preifat Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Yr Is-grŵp Caffael, sy'n gyfrifol am ymarferion caffael.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu fod lefel yr amser y mae Swyddogion ac Ymgynghorwyr yn ei neilltuo i holl waith y Partneriaeth, ynghyd â'r ffocws cynyddol fanwl ar wahanol weithgareddau, yn caniatáu i ni neilltuo amser ac adnoddau digonol ar gyfer pob un o'n gweithgareddau.

Yr Is-Grŵp Buddsoddi Cyfrifol (RISG)

Mae gwaith RISG yn ffordd hanfodol o sicrhau bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn neilltuo digon o amser a sylw i oruchwylio gweithgarwch stiwardiaeth a bod yn atebol amdano. Mae RISG yn cynnwys cynrychiolaeth gan Swyddogion o bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol, gyda chefnogaeth gan ymgynghorwyr allanol i ddarparu mewnbyn arbenigol yn ôl y galw.

Mae RISG yn gweithredu o dan ei Gylch Gwaith ei hun, gan ymgymryd â'r canlynol:

- Ffurio Cynllun Gwaith Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol sy'n caniatáu i'r Bartneriaeth ddatblygu ein hamcanion Buddsoddi Cyfrifol.
- Gweithio gyda'r rheolwyr buddsoddi a benodwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, y Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaethau eraill i sicrhau bod Polisiâu Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd y Bartneriaeth yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Datblygu arferion ar gyfer monitro materion Buddsoddi Cyfrifol ac adrodd arnynt.
- Monitro gweithgarwch Buddsoddi Cyfrifol, gan gynnwys metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a chofnodion Pleidleisio ac Ymgysylltu, a herio hyn lle bo angen.
- Ystyried datblygiadau rheoleiddio a datblygiadau o ran marchnadoedd i sicrhau y gall Partneriaeth Pensiwn Cymru ystyried arferion gorau sy'n datblygu.
- Bod yn gyfrwng ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eraill.

Cafodd cyfarfodydd RISG eu cynnal yn amlach yn ystod y flwyddyn er mwyn gallu ystyried polisi ar wahân i ddatblygu strategaeth a chraffu. Cafodd y newid hwn ei gefnogi gan yr Awdurdodau Cyfansoddol ac o ganlyniad roedd mwy o ffocws i'r trafodaethau, sydd wedi golygu bod modd craffu ar faterion mewn mwy o ddyfnder.

Adnoddau allanol

Fel yr amlinellwyd yn ein credoau buddsoddi, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu y gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd ffafriol a chost-effeithiol o gryfhau adnoddau, galluedd ac arbenigedd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cynhaliodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ymarferiadau profi'r farchnad ac ymarferiadau caffael neu benodi cysylltiol trylwyr i gontractio'r cyflenwyr canlynol, gan gredu y bydd y cyflenwyr yma, ar hyn o bryd, yn gallu cynorthwyo'r Bartneriaeth i gyflawni'r canlyniadau gorau a mwyaf cost-effeithiol ar gyfer ein rhanddeiliaid.

O blith y gwahanol berthnasoedd a drefnwyd i gefnogi'r gweithgareddau llywodraethu o ddydd i ddydd, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dibynnu'n drwm ar bedwar darparwr allanol i gefnogi gweithgarwch stiwardiaeth yn benodol.

Robeco: Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu

Mae gweithgarwch stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei wneud yn bennaf gan Robeco, sef y darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a benodwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Robeco yn cynorthwyo Partneriaeth Pensiwn Cymru i gynnal Polisi Pleidleisio. Ymhellach, mae Robeco wedi cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio ecwiti gweithredol Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ogystal ag adrodd wrth y Bartneriaeth a'r cronfeydd sylfaenol. Mae Robeco hefyd yn darparu'r swyddogaeth ymgysylltu ar draws yr Is-gronfeydd gweithredol, yn ogystal â'r daliadau goddefol.

Mae tîm Perchnogaeth Weithredol Robeco yn gyfrifol am yr holl weithgareddau Pleidleisio ac Ymgysylltu a wneir gan Robeco, ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cynnwys 18 o weithwyr proffesiynol Pleidleisio ac Ymgysylltu cymwys sydd wedi'u lleoli yn Rotterdam, Llundain, Singapore a Hong Kong ac sy'n cwmparu ystod o faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae'r tîm yn amlwladol ac amlieithog – sy'n fantais allweddol ar draws marchnadoedd amrywiol. Mae'r amrywiaeth hon yn cynnig dealltwriaeth o'r amgylchedd ariannol, cyfreithiol a diwylliannol y mae'r cwmnïau Robeco yn ymwneud ag ef ac yn gweithredu ynddo, sy'n arbennig o berthnasol o ystyried dosbarthiad rhanbarthol asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru fel y darluniwyd ar dudalen 17.

Er mwyn sicrhau gwybodaeth ddigonol am Fuddsoddi Cyfrifol ar draws y sefydliad, yn 2021 lansiodd Robeco yr Academi Buddsoddi Cynaliadwy i ddiwallu unrhyw anghenion hyfforddi sydd gan staff. Caiff stiwardiaeth ei gymell o fewn Robeco drwy fod gan weithwyr o leiaf un Dangosydd Perfformiad Allweddol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd wedi'i gynnwys yn eu hadolygiad perfformiad blynyddol, rhywbeth sydd hefyd wedi bod ar waith ers 2021.

Link Fund Solutions: Gweithredwr


Penodwyd Link yn Weithredwr allanol, a chyda chefnogaeth Russell, maent yn gweithio i hwyluso datrysiadau rheoli buddsoddi effeithiol a darparu perfformiad cryf heb gynnwys ffioedd ar gyfer yr holl Is-gronfeydd marchnadoedd a restrir.

Mae Link yn cefnogi gweithgareddau stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru trwy ddarparu adroddiadau goruchwyllo rheolwyr, gan gynnwys newidiadau o ran sgorio perfformiad a rheolwyr, yn ogystal ag addasu gofynion canllawiau i reolwyr, yn enwedig gyda golwg ar feini prawf Buddsoddi Cyfrifol ac Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae Link hefyd yn cefnogi'r gwaith o ymgysylltu â'r Ceidwad gwaelodol, Northern Trust.

Russell: Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau

Ar y cyd â Link, mae Russell yn darparu datrysiadau rheoli buddsoddiadau i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Ynghyd â Link Fund Solutions, mae Russell yn gweithio mewn ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru i sefydlu cyfryngau buddsoddi. Mae cylch gwaith Russell yn cynnwys cynghori Link Asset Services (is-gwmni i Link Fund Solutions) a Phartneriaeth Pensiwn Cymru ar adeiladu portfolio, sy'n cynnwys dewis rheolwr.

Mae Link Fund Solutions yn parhau i weithio gyda Russell, lle'n berthnasol, i leihau costau Partneriaeth Pensiwn Cymru ymhellach trwy strwythurau aml-reolwr, datrysiadau rheoli arian, troshaenau portfolio, rheoli trosglwyddiadau a gwasanaethau gweithredol eraill. Er nad yw Russell wedi'u penodi'n ddarparwr ymgysylltu fel y cyfryw, maent yn dal i gyflawni dyletswyddau stiwardiaeth ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru.



Mae gan Russell ddull integredig gydag arbenigwyr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu wedi'u cynnwys ledled y sefydliad. Mae eu Grŵp Llywio Buddsoddi Cyfrifol Byd-eang yn gyfrifol am lywio canlyniadau buddsoddi ac o sicrhau bod Russell yn darparu'r datrysiadau a'r canlyniadau Buddsoddi Cyfrifol gorau posibl i'w gleientiaid, gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae gan y Grŵp Llywio Buddsoddi Cyfrifol Byd-eang ddau noddwr ar lefel prif swyddogion, yn arbennig y Prif Swyddog Gwybodaeth Byd-eang a Phennaeth Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica (EMEA). Mae gan Russell hefyd nifer o weithgorau sy'n gysylltiedig â Buddsoddi Cyfrifol, sydd â'r dasg benodol o gyflawni ymchwil (gan gynnwys newid hinsawdd) a datblygu strategaeth.

Mae'r adnoddau hyn ar gael i Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn ôl yr angen ac yn cael eu defnyddio gan Russell wrth reoli'r Is-gronfeydd yn barhaus ar ran y Bartneriaeth. Er enghraifft:

- Wrth ddatblygu'r Gronfa Ecwiti Cynaliadwy, cafodd Partneriaeth Pensiwn Cymru a Hymans Robertson nifer o gyfarfodydd gyda Russell lle defnyddiwyd gwahanol baramedrau rheoli. Gwnaed yr ymchwil sylfaenol ar gyfer y broses hon gan Russell, ac yna bu'n destun herio a thrafodaeth. Yna roedd modd i Russell roi sylw i'r gwahanol safbwyntiau a fynegwyd a mireinio'r cynigion a'r ddadansoddeg gysylltiedig.
- Mae Russell wedi mynychu amrywiol gyfarfodydd gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys cyfarfod craffu gyda RISG i drafod nifer o'r Is-gronfeydd incwm sefydlog. Daeth arbenigwyr priodol i'r cyfarfod hwn i roi mewnbwn

arbenigol ar agweddau ar reoli'r Is-gronfeydd a mynd i'r afael â chwestiynau a godwyd. Roedd hyn yn adeiladu dealltwriaeth o fewn RISG o'r dull a gymerwyd.

Er mwyn cymhell stiwardiaeth effeithiol mae gan holl gymdeithion Russell, sydd â chyfrifoldebau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, stiwardiaeth a newid hinsawdd penodol, nodau perfformiad blynyddol sy'n cyd-fynd â llwyddiant integreiddio'r materion hyn. Mae'r nodau hyn yn cynnwys datblygu arferion Buddsoddi Cyfrifol a stiwardiaeth Russell i fod yn unol â safonau byd-eang trwy gydweithio â chyrff diwydiannol blaenllaw i ddatblygu fframweithiau diwydiant, gyrru arferion ymgysylltu, ac ymchwil a datblygu. Nod yr holl eitemau hyn yw darparu arferion stiwardiaeth cadarn i gyflawni amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae llwyddiant wrth fodloni'r nodau perfformiad penodol hyn sy'n ymwneud â stiwardiaeth a materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn gysylltiedig â thâl.

Hymans Robertson: Ymgynghorydd Goruchwyllo

Penodwyd Hymans Robertson yn Ymgynghorwr Goruchwyllo ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae rôl Hymans Robertson yn cwmpasu goruchwyllo a rhoi cyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth gyda rheoli prosiectau. Mae Hymans Robertson yn mynychu holl gyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn ogystal â darparu mewnbwn arbenigol i RISG.

Mae tîm Hymans Robertson sy'n cefnogi Partneriaeth Pensiwn Cymru ar faterion Buddsoddi Cyfrifol yn cynnwys tri pherson, gan gynnwys y Pennaeth Buddsoddiad Cyfrifol, tra bod tîm ehangach yn darparu cefnogaeth ar draws ystod o feysydd ychwanegol. Mae hyn yn cynnig lefel eang o gefnogaeth arbenigol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda'r Bartneriaeth yn gallu elwa ar gyfoeth o adnoddau Hymans Robertson yn ôl yr angen. Roedd angen hyn yn ystod y flwyddyn gan fod Hymans Robertson, yn dilyn trafodaeth gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru, wedi recriwtio adnodd ychwanegol yn uniongyrchol i ddarparu cefnogaeth bwrpasol i'r Bartneriaeth. Cyflwynwyd yr adnodd hwn yn fuan yn dilyn diwedd y flwyddyn adrodd.

Gosodir amcanion unigol i weithwyr Hymans Robertson fel rhan o gynllun datblygu gyrfa parhaus. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â thâl, gan gynnwys elfen o dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad i ymgynghorwyr. Mae gan y rheiny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru a'r rheiny sydd â chyfrifoldeb mwy uniongyrchol am faterion Buddsoddi Cyfrifol, megis y tîm cymorth Buddsoddi Cyfrifol, amcanion sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ac felly maent yn cael eu cymell yn fwy uniongyrchol i sicrhau bod stiwardiaeth yn cael ei harfer.

bfinance: Ymgynghorydd Caffael

Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ceisio arbenigedd ychwanegol yn ôl yr angen i gyflawni ein nodau. Un nod o'r fath fu datblygu Is-gronfeydd marchnadoedd preifat, lle nad oedd y sgiliau a ddymunir ar gael yn syth o fewn Darparwyr Gwasanaethau presennol. Er mwyn helpu i nodi darparwyr priodol ar gyfer pob un o'r Is-gronfeydd, penododd Partneriaeth Pensiwn Cymru bfinance, sydd wedi gweithio ar y cyd â Hymans Robertson a Phartneriaeth Pensiwn Cymru i gynnal ymarferion caffael yn y marchnadoedd hyn. Trwy ddewis bfinance fel Ymgynghorydd Caffael a'r ymarferion caffael dilynol mae ystyriaeth i faterion cynaliadwyedd wedi'i chynnwys, gan ganiatáu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddefnyddio arbenigedd bfinance a Hymans Robertson.

Penodwyd Russell i ddatblygu rhaglen buddsoddi dyledion preifat cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru, bydd GCM Grosvenor yn gweithredu buddsoddiadau seilwaith caeedig, a buddsoddir mewn seilwaith penagored trwy Gronfa Seilwaith Byd-eang CBRE, Cronfa Seilwaith Byd-eang IFM a Octopus Renewables Infrastructure SCSp.

Mae Bfinance hefyd yn cefnogi Partneriaeth Pensiwn Cymru wrth gaffael ecwiti preifat a darparwyr eiddo tirol.

Meithrin gwybodaeth a sgiliau

Mae natur strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru sy'n allanol i raddau helaeth yn golygu bod modd allanol datblygiad gwybodaeth a sgiliau, gyda'r Bartneriaeth yn gallu defnyddio'r arbenigedd datblygol hwn yn ôl yr angen. Mae defnyddio ystod o ddarparwyr allanol hefyd yn caniatáu i'r Bartneriaeth ddefnyddio'r wybodaeth arbenigol hon wrth ddarparu hyfforddiant.

Gan ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn paratoi ac yn cyflwyno rhaglen hyfforddi flynyddol i'n rhanddeiliaid, a chaiff y manylion eu cyhoeddi ar wefan y Bartneriaeth [yma](#). Darperir yr hyfforddiant

hwn gan Ddarparwyr Gwasanaeth presennol Partneriaeth Pensiwn Cymru a chan bartïon eraill, sy'n cynnig yr arbenigedd angenrheidiol. Yn ystod y flwyddyn darparwyd hyfforddiant ar ystod o faterion gan gynnwys:

- Asedau ar y farchnad breifat: gweithredu a llywodraethu
- Mynegeion Buddsoddi Cyfrifol: datrysiadau ac adrodd
- Adrodd ar berfformiad a meincnodau
- Tryloywder ynghylch costau a llywodraethu da

Mae'r dull hwn o hyfforddi yn sicrhau bod y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau a rhanddeiliaid eraill yn cael gwybod am y materion sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru a hynny gan gynnig y cyfle i ymgysylltu â darparwyr a'u holi. Mae hyn o gymorth i arfer stiwardiaeth ar draws asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Asesu a datblygu'r strwythur llywodraethu

Tra bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i gredu bod ein dull presennol yn gwasanaethu anghenion ein rhanddeiliaid, rhoddir ystyriaeth reolaidd i feysydd lle byddai modd gwella'r dull gweithredu. Roedd y meysydd lle gwnaed newidiadau er mwyn gwella'r canlyniadau i randdeiliaid yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Ychwanegu bfinance i gefnogi'r broses o gaffael darparwyr newydd
- Newid pa mor yr aml yr oedd cyfarfodydd RISG yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i'r broses o wneud penderfyniadau a bod pynciau'n cael eu gwahanu'n briodol
- Ychwanegu cymorth ychwanegol pwrpasol i gefnogi'r gwaith o oruchwylio stiwardiaeth

Gwrthdaro buddiannau

Mae Awdurdodau Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru bob amser wedi gorfod adnabod, rheoli a monitro gwrthdaro buddiannau. Mae'r broses o gyfuno Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol wedi golygu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn gorfod delio â gwrthdaro buddiannau. Mae hyn yn adlewyrchu'n syml y ffaith y bydd gan bersonél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau eraill, er enghraifft fel aelodau o Gynlluniau Awdurdodau Cyfansoddol neu fel ymgynghorydd i fwy nag un o Awdurdodau Cyfansoddol y Partneriaeth.

Manylir ar ddull Partneriaeth Pensiwn Cymru o reoli gwrthdaro buddiannau yn y [Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau](#). Lluniwyd y Polisi hwn i arddangos ein hymrwymiad i adnabod, rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau. Egwyddorion allweddol ffordd Partneriaeth Pensiwn Cymru o reoli gwrthdrawiadau yw:

- **Adnabod:** dylai partïon fod yn flaengar yn eu hymagwedd tuag at reoli unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi
- **Cydnabod:** rhaid i bartïon gydnabod unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt
- **Datgelu:** dylai partïon fod yn agored gyda'i gilydd am unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt
- **Rheoli:** dylai partïon weithio i fabwysiadu datrysiadau ymarferol i wrthdaro buddiannau lle bynnag y bo modd

Mabwysiadodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ddiffiniad o wrthdaro buddiannau sy'n cynnwys gwrthdaro buddiannau posibl, tybiedig a gwirioneddol. Mae'r Partneriaeth yn deall na fydd efallai'n bosibl adnabod, rheoli a monitro pob gwrthdaro buddiannau posibl a thybiedig; fodd bynnag, bydd yn ymdrechu i wneud hynny lle bynnag y modd. Mae'r Polisi hwn wedi'i fwriadu i ddarparu canllawiau i bersonél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda'r nod o sicrhau nad yw personél a darparwyr y Partneriaeth yn ymddwyn yn amhriodol. Datblygwyd y polisi hwn gan Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae gan Partneriaeth Pensiwn Cymru ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd pennaf rhanddeiliaid a buddiolwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nid yw hyn yn atal personél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru rhag cael rolau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau.

Darparwyr allanol

Fel rhan o'i Pholisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gallai defnyddio darparwyr allanol fod yn ffynhonnell gwrthdaro ac mae felly wedi sicrhau bod gan ei Darparwyr Gwasanaeth eu polisïau gwrthdaro eu hunain ar waith.

Russell Investments

Bu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn trafod gwrthdaro buddiannau posibl gyda Russell fel stiwardiaid cyfalaf. Fel rheolwyr buddsoddi, cadarnhaodd Russell y gallai fod ganddynt wrthdaro buddiannau strwythurol sy'n hysbys ac y mae'n rhaid eu rheoli, megis cael eu talu yn seiliedig ar lefelau asedau dan reolaeth (AUM).

Gan ei fod yn ymwneud yn benodol â Phartneriaeth Pensiwn Cymru, mae Russell bob amser wedi sicrhau fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei reoli'n effeithiol. Fel rhan o hyn mae gan Russell strwythur ffioedd cost a mwy ei le, sy'n caniatáu i arbedion cost sylfaenol dros amser gael eu trosglwyddo'n ôl i'r Partneriaeth. Mae Russell yn nodi hefyd nad ydynt yn rhedeg unrhyw arian yn fewnol ar gyfer y Partneriaeth, sy'n cael gwared â ffynhonnell gwrthdaro posibl.

Mae Russell yn rheoli gwrthdaro buddiannau yn unol â'r gofynion rheoleiddio ac yn ddarostyngedig i'r [Polisi Gwrthdaro Buddiannau](#).

Mae EMEA Compliance yn cynnal map gwrthdaro buddiannau ar gyfer pob un o'r cwmnïau sy'n gweithredu yn EMEA. Os nodir gwrthdaro newydd, cyfrifoldeb y busnes yw adrodd hyn wrth EMEA Compliance, a fydd yn gweithio gyda'r busnes i gofrestru'r gwrthdaro yn y map perthnasol. Ar sail chwarterol (ac ad-hoc yn ôl y gofyn), mae Gweithgor Gwrthdaro Buddiannau yn ystyried ac yn trafod pob gwrthdaro buddiannau posibl a gwirioneddol sy'n codi mewn perthynas â gweithgareddau busnes. Mae'r gweithgor hefyd yn trafod ffyrdd o reoli'r gwrthdaro buddiannau hwnnw. Os nad yw rheoli gwrthdaro buddiannau yn bosibl, bydd y gweithgor yn penderfynu ar y datgeliad sydd ei angen o ganlyniad.

Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau gyda golwg ar Partneriaeth Pensiwn Cymru dros y flwyddyn adrodd hon.

Robeco

Mae Polisi Pleidleisio ac Ymgysylltu Robeco yn amlinellu eu dull o adnabod a rheoli gwrthdaro buddiannau. Mae'r dull yn seiliedig ar 'Weithdrefn Gwrthdaro Buddiannau' Robeco. Enghreifftiau o wrthdaro buddiannau a allai godi yn gysylltiedig â gweithgareddau stiwardiaeth Robeco yw:

- Cwmni sy'n cael ei ddewis ar gyfer ymgysylltu neu sy'n gysylltiedig â'i riant gwmni neu is-gwmnïau cysylltiedig
- Mae gan Robeco hawliau pleidleisio mewn cwmni sy'n gysylltiedig â'n rhiant gwmni neu is-gwmnïau cysylltiedig
- Mae gwahanol gleientiaid yn ffafrio gwahanol ffyrdd o ymgysylltu.

Rhag ofn y gallai perthynas fusnes fygwth gwrthrychedd neu natur gweithgareddau stiwardiaeth, ymgynghorir ag adran gydymffurfio Robeco. Os oes angen dilyn gweithgareddau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ôl ymgynghori ag adran gydymffurfio Robeco, caiff gwahanol randdeiliaid eu hysbysu gan gynnwys Pwyllgor Gweithredol Robeco a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, fel rhan o weithgareddau stiwardiaeth arferol y tîm Perchnogaeth Weithredol, gwelwyd rhai achosion posibl o wrthdaro buddiannau a chawsant eu rheoli yn unol â'r polisi stiwardiaeth. Er enghraifft, er mwyn osgoi'r gwrthdaro buddiannau posibl sy'n ymwneud ag ethol cyfarwyddwyr ar fwrdd ORIX Corporation, rhiant-gwmni Robeco, gwnaethom ymatal rhag pleidleisio yn eu cyfarfod cyffredinol blynyddol ar ran cyfranddaliadau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Hymans Robertson

Mae gan Hymans Robertson bolisi gorfodol ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau ar draws holl gwmnïau'r grŵp y mae disgwyl i'w staff ei ddilyn. Gall gwrthdaro buddiannau godi pan gyflogir Hymans Robertson i ddarparu cyngor buddsoddi i un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yng Nghymru, wrth hefyd ddarparu cyngor i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar yr un pryd.


Mae nifer o berthnasoedd ymgynghorol o'r fath eisoes yn bodoli ac maent wedi'u datgelu i bob parti. Rheolir y gwrthdaro yn barhaus trwy sicrhau nad yw'r timau sy'n cynghori Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfrifol am y cyngor parhaus a roddir i Awdurdodau Cyfansoddol unigol. Pan roddir unrhyw gyfarwyddiadau newydd, mae Hymans Robertson wedi rhoi gwybod i Bartneriaeth Pensiwn Cymru a'r parti perthnasol am y gwrthdaro buddiannau posibl.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Hymans Robertson i fod wedi'i benodi'n ymgynghorydd buddsoddi i ddau o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Roedd y timau oedd yn gyfrifol am gynghori pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn parhau i fod yn wahanol i'r tîm oedd yn gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

Polisiau, monitro ac adolygu

Ein fframwaith polisi

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru nifer o bolisiau sy'n rheoli'r ffordd yr ydym yn gweithredu Is-gronfeydd ac yn ymarfer stiwardiaeth dros ein hasedau. Dangosir hyn isod.



O fewn y strwythur hwn, mae dwy agwedd yn bwysig i asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Mae'r egwyddorion cyffredinol yn penderfynu sut y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl i'r Is-gronfeydd gael eu gweithredu, ac maent hefyd yn llywio gweithgarwch Partneriaeth Pensiwn Cymru a'n Darparwyr Gwasanaethau.
- Mae'r polisiau buddsoddi yn llywio'r modd y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymarfer stiwardiaeth.

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru dri pholisi ar waith sy'n rheoli ein hagwedd at stiwardiaeth: Polisi Buddsoddi Cyfrifol; Polisi Risg Hinsawdd; a Pholisi Pleidleisio.

Adolygu a diweddaru ein polisiau

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu ein polisiau bob blwyddyn, er yn cydnabod bod gwahanol lefelau o adolygu yn briodol. Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd Partneriaeth Pensiwn Cymru adolygiadau ysgafn o'r polisiau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd, gan nodi bod y ddau bolisi wedi'u diweddaru'n gymharol ddiweddar ac yn parhau i fod yn gyfredol. Mae adolygiadau manylach o'r polisiau hyn wedi'u trefnu ar gyfer blwyddyn 2022/23.

Cynhaliwyd adolygiad manwl o ddull Partneriaeth Pensiwn Cymru o bleidleisio, wedi'i ysgogi gan ddiweddariad i Bolisi Pleidleisio Mewnol Robeco, a oedd wedi'i fabwysiadu'n flaenorol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Roedd y newidiadau penodol a wnaed i'r Polisi hwn yn cynnwys:

- Cryfhau'r Polisi ar amrywiaeth y bwrdd, gyda disgwyliad y dylai'r rhyw a gynrychiolir leiaf ffurfio o leiaf 30% o'r bwrdd. Roedd hyn yn unol â blaenoriaeth bleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru ar Amrywiaeth y Bwrdd.
- Cyflwyno fframwaith i farnu rhinweddau polisi ac adroddiad taliadau, gan gynnwys metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu perthnasol. Ystyriwyd bod hyn yn rhannol yn unol â blaenoriaeth bleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru ar Dâl Prif Swyddogion ac yn rhannol gysylltiedig â'r flaenoriaeth ar Reoli Cyfalaf Dynol.
- Cynigion cyfranddalwyr, gan nodi'n arbennig y byddai'n cefnogi penderfyniadau sy'n ceisio cynyddu tryloywder a/neu liniaru risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu o bwys. Er nad oedd yn flaenoriaeth, roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r farn bod y newid hwn yn gyson â disgwyliadau.

- Rheolaeth amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd, gan nodi y byddai'n cefnogi cynigion 'Lleisio Barn ar yr Hinsawdd' a gynigir gan reolwyr lle mae targedau/uchelgeisiau sero net yn cael eu gosod yn unol â Chytundeb Paris, sy'n cyfyngu ar or-anelu posibl ac nad ydynt yn dibynnu ar dechnolegau allyriadau negyddol, a lle adroddir ar gynnydd yn unol â'r Tasglu ar fframwaith Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD). Ystyriwyd bod y newid hwn yn gyfan-gwbl gyson â dwy o flaenoriaethau pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru ac felly'n unol â'r disgwyliadau.

Penderfynodd Partneriaeth Pensiwn Cymru fod parhau i ddefnyddio Polisi Pleidleisio Mewnol Robeco felly yn unol â'r disgwyliadau. Ymhellach, adolygodd Partneriaeth Pensiwn Cymru y broses ar gyfer diweddariadau i'r polisi hwn yn y dyfodol, gan gydnabod rôl Robeco wrth ddarparu cyngor a mewnbwn ar arferion gorau sy'n bodoli. O ganlyniad, cyflwynodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ein Polisi Pleidleisio ein hunain i symleiddio trefniadau llywodraethu ynghylch newidiadau yn y dyfodol. Mae [Polisi Pleidleisio](#) Partneriaeth Pensiwn Cymru bellach yn egluro:

- Bydd Polisi Pleidleisio Mewnol Robeco yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gweithgaredd pleidleisio.
- Gan RISG y mae'r cyfrifoldeb hwnnw am adolygu newidiadau yn y dyfodol i Bolisi Pleidleisio Mewnol Robeco, gydag unrhyw bryder o bwys yn cael ei chyfathrebu i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu i'w hystyried os yn briodol.
- Mae'n ofynnol i Robeco ystyried rhybuddion LAPFF ar sail cydymffurfio neu esbonio.
- Bydd blaenoriaethau pleidleisio yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses graffu.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol eto i gronfeydd a reolir yn oddefol lle mae'r darparwr goddefol yn gyfrifol am y gweithgarwch hwn ar hyn o bryd. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda BlackRock ar ymestyn y Polisi Pleidleisio i gronfeydd goddefol. Er y nodwyd bod hyn yn bosibl, mae rhoi ystyriaeth bellach i gymhlethdod gweithredu masnachol a chytundebol yn parhau i gael ei archwilio ymhellach.

Adolygu ein polisi ar fenthycia gwarantau

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cytuno, ar ôl ymgynghori â phob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol, y bydd benthyciadau gwarantau yn cael eu caniatáu o fewn cronfeydd cyfunol a reolir yn weithredol gan Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nodir hyn o fewn ein Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Fodd bynnag, ni fydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn benthycio 100% o'r daliad mewn unrhyw stoc sengl, yn hytrach mae clustog 5% o faint enwol pob daliad ecwiti unigol yn cael ei gynnal trwy beidio â bod ar gael i'w fenthycio. Mae hyn yn sicrhau bod gan Partneriaeth Pensiwn Cymru o leiaf un safle ar gael i bleidleisio bob amser. Yn ogystal, nid oes mwy na 25% o gyfanswm asedau dan reolaeth (AUM) ar unrhyw un adeg yn cael eu hystyried yn fenthyciadwy. Ymhellach, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymwybodol y gall benthycia stoc atal ein Polisi Pleidleisio rhag cael ei gymhwyso'n llawn, gan na fydd pleidleisiau'n cael eu bwrw ar stoc ar fenthycio. Dylid nodi, i liniaru hyn yn rhannol o leiaf, bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cadw'r hawl i alw stoc yn ôl, os oes angen, fel rhan o'n trefniadau benthycia stoc.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi dechrau proses o adolygu'r polisi hwn, gan gydnabod y rhyngweithio rhwng arfer stiwardiaeth a chynhyrchu refeniw. Mae dadansoddiad cychwynnol o weithgarwch benthycia stoc wedi'i wneud, a'i drafod gyda RISG a'r Gweithgor Swyddogion. Tynnwyd sylw at achosion o stociau allan ar fenthycio yn ystod Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol, er na nodwyd unrhyw achosion lle mai Partneriaeth Pensiwn Cymru oedd y bleidlais wnaeth droi'r fantol. Mae gwaith dadansoddi pellach yn cael ei wneud, gyda'r disgwyl i'r polisi hwn gael ei adolygu'n ffurfiol yn ystod 2022/23.

Monitro cydymffurfiaeth â'n polisïau

Un o'r offerynnau a ddefnyddir gan Partneriaeth Pensiwn Cymru yw proses o fonitro cydymffurfiaeth â'n polisïau allweddol. Gan weithio gyda'r Ymgynghorydd Goruchwyllo, adolygodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ein cydymffurfiaeth â'n hymrwymadau yn y Polisïau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ganlyniad yr adolygiad hwn, gyda chrynodeb o'r asesiadau wedi'i gynnwys fel Atodiad 2. Wrth dynnu sylw at feysydd lle'r oedd cynnydd wedi'i wneud a'r camau a gymerwyd - mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn - nododd yr adolygiadau hefyd rai meysydd lle nad oedd gwaith wedi symud ymlaen dros y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Nid yw gwaith wedi symud ymlaen eto ar roi ystyriaeth i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud ar ddatblygu proses i ddarparu mewnbwn i Robeco ar themâu Pleidleisio ac Ymgysylltu allweddol. Mae'r maes gwaith hwn wedi datblygu ymhellach dros H2, 2022.
- Y bwriad yw y bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adrodd yn unol â gofynion y TCFD ar gyfer blwyddyn ariannol

2021/22 a bydd yn cefnogi Awdurdodau Cyfansoddol sy'n dymuno gwneud yr un peth. Er nad oes adroddiad cychwynnol gan TCFD wedi ei lunio eto, mae trafodaeth yn mynd yn ei blaen ar lunio adroddiad hinsawdd Cymru gyfan. Rhoddir ystyriaeth i ddadansoddi senarios a sut y gall fod yn ddefnyddiol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru fel rhan o'r broses adrodd hon.

- Ni wnaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru gwblhau adolygiad blynyddol ffurfiol o ddulliau pob un o'r rheolwyr buddsoddi o integreiddio risg hinsawdd, er iddi wneud gwaith sylweddol ar ddull Russell trwy graffu parhaus.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gallwn barhau i wella ein prosesau ein hunain a'r ffordd yr ydym yn gwasanaethu'r holl randdeiliaid. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu y bydd y broses hon o adolygu a thryloywder parhaus yn gwella stiwardiaeth barhaus. Ymhellach, mae tri maes posibl ar gyfer gweithgarwch/gwella dros 2022/23 wedi'u nodi:

- Gwella'r broses o ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol: Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i adeiladu ein hymgylltiad mewnol, yn enwedig wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r nodau hinsawdd.
- Asesu gweithrediad parhaus y strategaeth: Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio ymhellach gyda'n darparwyr i ddatblygu math o adroddiadau asesu blynyddol i gyflawni'r gwahanol ymrwymadau yn y polisiau a'r ddeialog barhaus ynghylch y cyfarfodydd craffu i sicrhau bod y rhain yn bodloni gofynion Partneriaeth Pensiwn Cymru yn y ffordd orau.
- Chwilio am gyfleoedd pellach i gydweithio: bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried ymdrechion gydweithredol manylach, yn enwedig ynghylch adrodd.

Dysgu o broses adrodd y Côd Stiwardiaeth

Ar ôl cyflwyno adroddiad côd stiwardiaeth 2021, cynhaliodd Partneriaeth Pensiwn Cymru adolygiad o'r hyn a ddysgwyd o'r broses adrodd gan dynnu sylw at gyfres o gamau y gallem eu cymryd i wella. Mae'r camau sydd wedi eu datblygu o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn cynnwys:

- Cynnal archwiliad dwfn ar nifer fach o reolwyr Is-gronfeydd gwaelodol. Cynhaliwyd un archwiliad dwfn yn ystod y flwyddyn adrodd.
- Gwella'r broses o gasglu gwybodaeth am asesiadau rheolwyr. Mae fframwaith adrodd wedi'i ddatblygu a chytunwyd arno gyda Robeco a Russell i gefnogi'r broses o adolygu.
- Gwella manylder y wybodaeth bleidleisio a ddarperir gan Robeco. Mae'r gwaith cychwynnol wedi caniatáu i ddata gael ei wahanu yn ôl Is-gronfa, gyda gwaith pellach ar wybodaeth yn parhau.
- Adolygu sut y cafodd rhybuddion LAPFF eu ffactora mewn prosesau pleidleisio. Fel y disgrifiwyd mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn, mae proses glir o gydymffurfio neu egluro bellach ar waith.
- Gwella'r modd o gyfathrebu gwybodaeth o Bartneriaeth Pensiwn Cymru i Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r gwaith ar ffurf adroddiadau cyfunol wedi bod yn parhau.
- Sefydlu cysylltiad rhwng blaenoriaethau ymgysylltu a chydweithredu. Gwnaed gwaith i atgyfnerthu'r broses o gasglu mewnbyn gan Awdurdodau Cyfansoddol ar themâu ymgysylltu gan ddefnyddio fframwaith stiwardiaeth gliriach, a fydd yn llywio'r camau hyn yn y dyfodol.
- Ystyried ymestyn y Polisi Pleidleisio i asedau goddefol. Er bod deialog gychwynnol wedi'i chynnal gyda BlackRock, nid yw'r cam gweithredu hwn wedi'i symud ymlaen eto, o ystyried y cyfyngiadau contractiol.

Mae'r broses o adolygu a nodi camau gwirioneddol i'w cymryd ymlaen yn dangos ymhellach ymrwymiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i ddysgu a gwella ein prosesau stiwardiaeth. Wrth i asedau dan reolaeth (AUM) Partneriaeth Pensiwn Cymru barhau i gynyddu ac wrth i'r ystod o Is-gronfeydd ehangu, bydd y dull cysondeb hwn o weithredu ar draws pob darparwr yn hanfodol.

Sicrhau ein prosesau

Fel Ymgynghorydd Goruchwylio, mae Hymans Robertson yn cynnal adolygiadau cyfnodol o'r gwaith a wneir gan Russell, Link a Robeco, gan felly roi sicrwydd i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiadau o ddau o'r Is-gronfeydd ecwiti. Er bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn sicr bod gweithredu'r Is-gronfeydd hyn yn briodol ac yn unol

â disgwyliadau, gwnaed nifer o argymhellion ynghylch adrodd, yn enwedig gyda golwg ar y gwasanaeth Gweithredu Portffolio Gwell (troshaen carbon isel), o ystyried y cofnod cymharol fyr ar y pwynt adolygu.

Ein buddsoddiadau

Rôl Partneriaeth Pensiwn Cymru yw hwyluso a darparu platform cyfuno buddsoddiadau er mwyn gallu gweithredu buddiannau'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trefniant pensiwn agored â buddion wedi'u diffinio sydd â gornelion buddsoddi hirdymor. Tra bod y buddion sylfaenol a ddarperir gan yr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gyffredin i bawb, mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth, gan roi ystyriaeth i'w polisiau eu hunain, eu sefyllfa ariannol a'u haelodaeth waelodol.


Felly mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru y dasg o ddarparu a rheoli cyfryngau buddsoddi y gall yr Awdurdodau Cyfansoddol weithredu eu strategaeth ddewisol trwyddynt.

Asedau dan reolaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru

Ar hyn o bryd ceir naw Is-gronfa gyfunol weithredol, gydag Is-gronfa Ecwiti Marchnad Ddatblygol yn cael ei lansio dros y cyfnod adrodd, gan ddod â chyfran yr asedau cyfunol i dros 70% (sy'n cynnwys ein buddsoddiadau goddefol). Mae'r ystod o Is-gronfeydd a gynigir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn rhoi'r cyfleoedd i'r Awdurdodau Cyfansoddol fodloni eu gofynion buddsoddi unigol. Mae pob Cronfa Bensiwn yn buddsoddi mewn o leiaf dwy Is-gronfa weithredol, gydag un Gronfa Bensiwn yn buddsoddi mewn cymaint â saith. Mae parhau i ddatblygu Is-gronfeydd yn rhan allweddol o gynllun gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'n hanfodol bod trafodaethau parhaus yn digwydd gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol i sicrhau bod eu hanghenion buddsoddi'n cael eu diwallu.

Cyfunol weithredol	Awdurdodau Cyfansoddol sy'n cymryd rhan	Rheolwyr gwaelodol	Cyfanswm £m (2021)
Ecwiti: Marchnadoedd Datblygol	4	6	465 (<i>ddim yn berthnasol</i>)
Ecwiti: Twf Byd-eang	5	3	3,303 (<i>3,061</i>)
Ecwiti: Cyfleoedd Byd-eang	6	7	3,388 (<i>2,624</i>)
Ecwiti: Cyfleoedd y DU	2	6	730 (<i>674</i>)
Incwm Gosod: Bondiau Ad-daliad Absoliwt	3	4	510 (<i>458</i>)
Incwm Gosod: Credyd Byd-eang	4	4	758 (<i>791</i>)
Incwm Gosod: Llywodraeth Fyd-eang	2	2	507 (<i>527</i>)
Incwm Gosod: Credyd Aml-asedau	5	5	723 (<i>714</i>)
Incwm Gosod: Credyd y DU	1	1	574 (<i>551</i>)
Cyfunol goddefol	8	1	5,598 (<i>5,233</i>)
Cyfanswm		37	16,556 (<i>14,633</i>)

Regional distribution of actively managed assets



Ehangu'r ystod o Is-gronfeydd

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi gweithio gyda Russell a Hymans Robertson dros y flwyddyn i ddatblygu Is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy. Cytunwyd ar baramedrau ac amcanion yr Is-gronfa hon yn ystod y flwyddyn adrodd, gyda chymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer lansio'r Is-gronfa yn destun cytundeb gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar ôl diwedd y flwyddyn. Disgwylir y bydd yr Is-gronfa hon yn cael ei lansio a'i hariannu gan Awdurdodau Cyfansoddol yn ystod y flwyddyn 2022/23.

Ym mis Gorffennaf 2021 penodwyd bfinance gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu i fod yn Ymgynghorydd Dyrannu Partneriaeth Pensiwn Cymru i helpu'r Partneriaeth i nodi dyranwyr ar gyfer y dosbarthiadau asedau marchnad breifat. Ym mis Mawrth 2022 penodwyd y Dyranwyr Seilwaith a Dyledion Preifat, gyda'r ymarfer caffael ar gyfer y Dyranwr Ecwiti Preifat hefyd ar y gweill. Mae disgwyl i'r penodiad gael ei wneud yn hydref 2022. Bydd yr Is-gronfeydd Seilwaith a Dyledion Preifat yn cael ei lansio yn ddiweddarach yn 2022/23, gydag Is-gronfa Ecwiti Preifat i'w lansio yn 2023/24. Mae trafodaethau hefyd wedi dechrau gyda golwg ar y posibilrwydd o gael Is-gronfa Eiddo.

Disgwylir i ddatblygiad a lansiad yr Is-gronfeydd ychwanegol hyn ddiwallu anghenion sy'n weddill yr Awdurdodau Cyfansoddol, a hwyluso'r gwaith o gyfuno'r mwyafrif o'r asedau sy'n weddill. Fodd bynnag, o ystyried costau newid ac anhylifedd yr asedau gwaelodol, disgwylir i'r cyfnod o drosglwyddo i'r Is-gronfeydd mwy newydd hyn fod yn arafach.

Datblygu Is-gronfeydd presennol

Yn ystod 2020/21, gan gydnabod yr awydd gan Awdurdodau Cyfansoddol i leihau ôl troed carbon strategaeth ecwiti Partneriaeth Pensiwn Cymru, gweithiodd Partneriaeth Pensiwn Cymru gyda Russell i ddatblygu troshaen carbon isel ar gyfer yr Is-gronfa Cyfleoedd Byd-eang, a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn adrodd. Parhaodd Partneriaeth Pensiwn Cymru i drafod gyda Russell yn 2021/22 ar yr ystod Is-gronfeydd bresennol, gyda'r bwriad o ychwanegu'r droshaen carbon isel i Is-gronfa Cyfleoedd y DU, er nad yw hyn wedi'i weithredu eto.

Hefyd yn 2020/21, eto wrth ystyried sut i fynd i'r afael â risg hinsawdd ac ymateb i faterion pontio'r hinsawdd, gweithiodd Partneriaeth Pensiwn Cymru gydag un o reolwyr gwaelodol yr Is-gronfa Twf Byd-eang i ddatblygu'r strategaeth. Yn dilyn ymgynghori gyda'r pum Awdurdod Cyfansoddol sydd wedi buddsoddi yn yr Is-gronfa, penderfynwyd symud y strategaeth i gynnyrch sy'n cyd-fynd â Chytundeb Paris. Gan gydnabod y byddai'r ateb diwygiedig yn diwallu anghenion Partneriaeth Pensiwn Cymru yn well, cafodd y newid ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2021, ond cafodd ei weithredu ar ôl hynny sef ar ddiwedd Tachwedd 2021.


Astudiaeth achos: newid rheolwr gwaelodol

Cyn lansiad swyddogol yr Is-gronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol, gwnaeth Russell y penderfyniad i newid un o'r rheolwyr gwaelodol i gyd-fynd yn well â chredoau strategol Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r safle a ffefrir ganddi. Roedd rhan o'r rhesymeg hon yn canoli ar ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.

Ym marn Russell, roedd y rheolwr newydd yn well am addasu ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu i anghenion cleientiaid ac felly roedd o flaen ei gymheiriaid yn hyn o beth. Fel rhan o'r addasu hwn, roedd y mandad yn gofyn am bortffolio heb unrhyw risg carbon (yn erbyn meincnod) bob amser. Yn ogystal, barnwyd bod gan y rheolwr newydd agenda ymchwil gadarnhaol ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ac mae Russell yn disgwyl i'r rheolwr barhau ar drywydd cadarnhaol i ymgorffori mesurau risg mwy blaengar o ran cynaliadwyedd.

Ein dull Buddsoddi Cyfrifol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r farn bod integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gan gynnwys ystyried risgiau a chyfleoedd, mewn prosesau buddsoddi yn rhag-amod ar gyfer unrhyw strategaeth o ystyried y posibilrwydd o golli arian. Wrth i asedau cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru gael eu rheoli'n allanol, mae'r Partneriaeth yn gosod disgwyliadau ar sut y dylid rheoli asedau gyda Russell i sicrhau bod safbwyntiau Buddsoddi Cyfrifol, y modd y caiff materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eu hintegreiddio a'r dull o reoli risg yn cyd-fynd â'i gilydd.



Russell Investments

Mae Russell yn integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ei broses fuddsoddi trwy werthuso rheolwyr buddsoddi a darparu datrysiadau buddsoddi perchnogol. Mae athroniaeth materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu Russell yn seiliedig ar bedwar cred:

- Mae ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn effeithio ar brisiau diogelwch
- Mae dealltwriaeth ddofn o'r modd y mae ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn effeithio ar brisiau diogelwch yn ychwanegu gwerth at broses fuddsoddi fedrus
- Mae gwreiddio ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ddiwylliant a phroses cwmni yn gwella'r tebygolrwydd o fuddsoddi hir a llwyddiannus
- Mae perchnogaeth weithredol yn arf effeithiol ar gyfer gwella canlyniadau buddsoddi

Mae Russell yn defnyddio mewnbynnau meintiol ac ansoddol i asesu ymwybyddiaeth rheolwr o faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a'r modd y mae'n integreiddio hyn. Yna defnyddir y mewnbynnau hyn i bennu safle, sy'n cyfrannu at safle cyffredinol y rheolwr. Mae'r fethodoleg sgorio yn cynnwys pedair sgôr:

- **Ymrwymiad i faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu:** Mae adnoddau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn gadarn ac yn cyd-fynd â'r broses fuddsoddi. Mae gan unigolion sy'n gyfrifol am faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu brofiad perthnasol ac maent yn fedrus. Mae amrywiaeth o ffynonellau ac offer data o ansawdd uchel ar gael i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau buddsoddi.
- **Ystyriaeth i faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu:** mae ymwybyddiaeth gref o effaith risg ac ad-daliad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn amlwg. Mae'r ehangder a'r dyfnder persbectif yn well na chymheiriaid. Mae'r dealltwriaeth yn deillio o ymchwil cynradd ac yn cael ei gwahaniaethu.
- **Gweithredu materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu:** Caiff dealltwriaeth o ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ei throsi'n effeithiol a chysylltu wrth bennu safle portfolios. Mae'r


rheolwr yn dangos yn glir sut y mae safle'r portffolios yn adlewyrchu'r modd y caiff y gyrrwyr risg ac ad-daliad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu perthnasol eu rheoli.

- **Perchnogaeth Weithredol:** Mae tryloywder, ansawdd a hyd yr ymgysylltu gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn rhagori'n gyson ar gronfeydd tebyg. Caiff mesuriadau llwyddiant eu datgan yn glir ac maent yn briodol. Mae canlyniadau Perchnogaeth Weithredol neu Asesiadau Effaith ar gael yn hwylus ac yn cael eu cofnodi. Lle bo'n berthnasol, ceisir gwneud defnydd gwybodus o brocsïau.


Er bod yr integreiddio hwn yn gyffredinol yn gyson ar draws dosbarthiadau asedau a rhanbarthau, ceir enghreifftiau pryd y gall hyn fod yn wahanol:

- **Argaeledd ac ansawdd data:** gall amrywio ar draws dosbarthiadau a rhanbarthau asedau. Er enghraifft, nid yw dosbarthiadau asedau anhylif yn gallu defnyddio data mor helaeth ag mewn ecwitiai cyhoeddus, dyledion corfforaethol rhestredig a dyledion sofran. O ganlyniad, gall prosesau ddibynnu llai ar ddata yn y sefyllfaoedd hyn.
- **Cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth weithredol:** gall ddibynnu ar ddosbarthiadau asedau a chyfyngau buddsoddi. Er enghraifft, mae natur tymor sefydlog a chontractiol buddsoddiadau bondiau yn rhoi nifer cyfyngedig o gyfleoedd ymgysylltu i wneud effaith eglur gyda dyroddwyr unigol. Mae'r cyfleoedd hyn yn aml yn fyr iawn cyn bod rhaid gwneud penderfyniad buddsoddi ac nid ydynt yn agored i bob parti, ond yn hytrach yn ôl disgrisiwn parodrwydd y dyroddwr i gymryd rhan yn y rhan fwyaf o achosion. Dirprwyir rheolaeth unrhyw hawliau sy'n gysylltiedig â gwarantau bond neu ddyledion i'r rheolwyr incwm sefydlog sylfaenol.

Mae portffolio incwm sefydlog Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys offerynnau incwm sefydlog sy'n cael eu masnachu'n gyhoeddus, lle mae'r telerau sy'n nodi unrhyw hawliau gan ddeiliaid bondiau fel arfer yn rhai generig. Wrth asesu rheolwr incwm sefydlog, mae Russell yn disgwyl i'r rheolwr gael dadansoddwr ymgysylltu incwm sefydlog pwrpasol a cheisio dylanwadu ar gorfforaethau ar adeg dyroddi bondiau. Er bod hawliau deiliaid bondiau yn dod yn bwysig os byth y bydd dyroddwr yn diffygdlu ei ddyled, yn ymarferol, mae rheolwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn llawer mwy tebygol o werthu gwarantau mewn da bryd cyn diffygdlu yn hytrach na mynd trwy'r broses gyfreithiol sy'n ymwneud â dal bondiau sydd wedi mynd i ddiffygdlu.



Mae'r sgoriau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a roddir i bob un o'r rheolwyr Is-gronfeydd gwaelodol yn cael eu crynhoi isod, o gymharu â dosbarthiad sgoriau yn 2021. Mae'r siart hwn hefyd yn adlewyrchu cyflwyno'r Is-gronfa Ecwiti Marchnad Ddatblygol ac ychwanegu rheolwr newydd i Gronfa Cyfleoedd y DU yn ystod y flwyddyn.



Ffynhonnell: Russell

Hyd yma, ni fu unrhyw newid yn sgoriau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu i reolwyr unigol gyda golwg ar y flwyddyn adrodd flaenorol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi nodi nad oedd unrhyw newidiadau yn sgôr y ddau reolwr a sgoriwyd fel 2 dros gyfnod y flwyddyn. Roedd y trafodaethau gyda Russell ar y pwynt hwn ynglŷn â pharhau i'w cynnwys yn tynnu sylw at y canlynol:

- **Rheolwr yng Nghronfa Cyfleoedd y DU:** Mae Russell yn canfod bod y rheolwr yn is na'r cyfartaledd o gymharu â chymheiriaid ecwiti y DU wrth ymgorffori ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn y broses fuddsoddi, gyda'r rheolwr ddim yn cynnwys ffactorau cynaliadwyedd neu Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu mewn sgriniau neu arferion adeiladu portffolio yn eglur. Fodd bynnag, mae Russell wedi dynodi bod natur systematig a chynhenid ôl-edrychol proses fuddsoddi gyffredinol y rheolwr yn gwneud ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ychydig yn llai perthnasol i'r strategaeth hon nag y maent i rai o gymheiriaid ecwitiai'r DU - yn benodol felly'r rheiny y mae eu prosesau yn galw am farn fwy goddrychol a gorwelion buddsoddi hirach. Beth bynnag am hynny, mae Russell wedi cadarnhau bod hwn yn faes y mae'n parhau i'w fonitro fel rhan o'r ymchwil parhaus ar y rheolwr hwn.
- **Rheolwr yn y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang:** nid yw'r rheolwr wedi ceisio integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ystyrion yn y broses fuddsoddi. Fodd bynnag, mae Russell wedi cynghori bod y rheolwr yn rhedeg proses feintiol i raddau helaeth gyda nifer uchel o ddaliadau (wedi'u paru â throsiant sylweddol), gyda gyrwyr risg ac ad-daliad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu fel arfer heb berthnasedd mewn prosesau o'r fath.

Russell yn monitro risg mewn portffolios ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru

Ar gyfer pob dosbarth ased, caiff ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eu cynnwys yn eglur yn asesiad Russell o reolwyr allanol. Yn ogystal, ar gyfer ecwitiai, bondiau nad ydynt yn rhai'r llywodraeth, eiddo a seilwaith, mae Russell hefyd yn cyfrifo cysylltiadau ar lefel portffolio a gynlluniwyd i fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid ynni, gan gynnwys allyriadau carbon, dod i gysylltiad â chronfeydd tanwydd ffosil a chysylltiad ag ynni adnewyddadwy, yn ogystal â dod i gysylltiad â set ehangach o faterion cynaliadwyedd fel y'u cipiwyd gan sgoriau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Ystyrir dwy sgôr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu:

- Sgôr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu o Bwys Russell a ddatblygwyd yn fewnol, sy'n canolbwyntio ar y llond llaw o faterion ar gyfer pob cwmni a nodwyd eu bod o bwysigrwydd ariannol i'w fusnes gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Cynaliadwyedd.
- Sustainability Risk Rating, sy'n mesur cysylltiad cwmni â risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu o bwys sy'n benodol i'r diwydiant a pha mor dda y mae'r cwmni'n rheoli'r risgiau hynny.

Mae rheolwyr portffolio Russell yn ceisio adnabod ac asesu risgiau cynaliadwyedd o bwysigrwydd ariannol yn barhaus o fewn portffolios. Nodir risgiau posibl gan ddefnyddio'r rhain a metrigau risg eraill sydd ar gael, ac wrth gyfathrebu â rheolwyr buddsoddi allanol. Os nodir risg bosibl yn ymwneud â chynaliadwyedd, bydd Russell yn adolygu gyrwyr neu is-gydrannau unrhyw fetrigau y tu ôl i'r risg a amlygwyd, a allai arwain at drafodaeth fanylach gyda'r rheolwr buddsoddi allanol sy'n cefnogi'r daliad. Gall Russell hefyd weithio gyda Thîm Perchnogaeth Weithredol Russell i ystyried opsiynau ymgysylltu. Mae'r broses hon yn sicrhau bod asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i gael eu rheoli yn unol â pholisiau mewnol Russell.

Astudiaeth achos: Adolygiad risg Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Fel rhan o adolygiad risg rheolaidd Russell, caiff daliadau eu sgrinio, nodir enwau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sydd â risg uchel ac mae Russell yn gwahodd sylwebaeth gan y rheolwr gwaelodol ar yr enwau hyn. Un o'r enwau hyn dros y cyfnod adrodd oedd UACJ, a nodwyd fel 'risg ddifrifol' yn ôl Sustainalytics, daliad o fewn yr Is-gronfa Cyfleoedd Byd-eang.

Cysylltodd Russell â rheolwr asedau Japan, NAM ynglŷn â'r daliad portffolio. Prif fusnes UACJ yw gweithgynhyrchu dalenni aloi alwminiwm ar gyfer cynwysyddion diodydd. Ym marn NAM, un o'r risgiau ar gyfer UACJ yw tynhau rheoliadau ar allyriadau CO₂. Er bod NAM yn teimlo bod UACJ yn deall arwyddocâd y risg hon yn ansoddol, ac yn ystyried camau i ddatrys y mater hwn, mae strategaethau dadansoddi risg a lliniaru'r cwmni yn annigonol. Felly, mae NAM wedi bod yn annog y cwmni, trwy ymgysylltu, i ddatgelu ei ddadansoddiad risg meintiol a maint y buddsoddiad i liniaru'r risg.

Nododd Russell fod peth gwelliant wedi bod yn y strwythur llywodraethu. Er enghraifft, trwy gynyddu nifer y cyfarwyddwyr annibynnol. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd o ran effeithlonrwydd cyfalaf. Bydd NAM yn annog y cwmni i wella effeithiolrwydd ei drefn lywodraethu trwy ymgysylltu

Mae RISG yn ymgymryd â goruchwyliaeth a chraffu

Wrth weithredu model wedi'i allanoli, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfrifol am graffu'n uniongyrchol ar Ddarparwyr Gwasanaethau allweddol, ac mae Russell wedyn yn gyfrifol am oruchwyllo'n uniongyrchol y rheolwyr gwaelodol a gyflogir o fewn yr Is-gronfeydd. Caiff risgiau cynaliadwydd o bwysigrwydd ariannol eu monitro gan Russell yn barhaus, fel yn achos unrhyw risgiau eraill. Mae Russell hefyd yn cynnal archwiliadau chwarterol gyda rheolwyr y portffolio gan gyfeirio at risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwyllo prosesau Russell ar stiwardiaeth ac integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.

Un o rolau parhaus yr Ymgynghorydd Goruchwyllo yw asesu rheolaeth yr Is-gronfeydd a phrofi'r prosesau a ddefnyddir. Wrth ymgymryd â'r ymarfer hwn, mae Hymans Robertson yn ymgymryd ag asesiad annibynnol o bob portffolio, gan dynnu sylw at feysydd cyfanredol ac unigol o risg i RISG. Caiff pob Is-gronfa ei hadolygu'n flynyddol, gydag o leiaf un adroddiad yn cael ei ddarparu ar o leiaf un Is-gronfa bob chwarter i sicrhau bod disgwyliadau buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu bodloni.

Mae'r gwaith monitro yn cwmpasu: risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys tueddiadau mewn allyriadau carbon; Risgiau sy'n gysylltiedig â ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gan gynnwys dod i gysylltiad â materion dadleuol; ac mae'n tynnu sylw at gwmnïau unigol o fewn portffolios a allai fod yn briodol i'w trafod ymhellach.


Fel rhan o'r gwaith o graffu ar reolwyr Is-gronfeydd sylfaenol, caiff unrhyw faterion sy'n peri pryder eu codi gyda Russell i'w trafod a'u hesbonio ymhellach. Lle bo'n briodol, bydd Russell hefyd yn cwrdd â Phartneriaeth Pensiwn Cymru i drafod materion sy'n peri pryder.

Bu Russell yn bresennol yn RISG ym mis Tachwedd 2021 i roi trosolwg o'r gwahaniaeth rhwng integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu mewn incwm sefydlog o gymharu ag ecwiti. Trafododd Russell bryderon ynghylch argaeledd data a modd i ymgysylltu, ac ystyriwyd enghreifftiau penodol o'r hyn y mae dau o'r rheolwyr Is-gronfeydd gwaelodol â sgoriau uwch, Barings a BlueBay, yn ei wneud o ran ymgysylltu.

Darparwyr Gwasanaethau a stiwardiaeth

Er mwyn sicrhau bod gweithgareddau monitro ac ymgysylltu Darparwyr Gwasanaethau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i fod yn unol â gweithgareddau'r Partneriaeth, mae'r Partneriaeth yn olrhain yr ymgysylltu â Russell a Robeco mewn Log Stiwardiaeth. Mae'r log hwn yn ystyried unrhyw farn neu bryderon sydd wedi'u codi gan aelodau neu randdeiliaid eraill ac a gyflwynwyd yn unrhyw un o'r cyfarfodydd rheolaidd (yn fwyaf arbennig RISG). Ymhlith y sgysiau dros y cyfnod adrodd yr oedd:

- Robeco: arweiniodd pryderon ynghylch achosion o dorri hawliau dynol yn Nhiriogaethau Meddianedig Palesteina at sgwrs ddilynol gyda Robeco trwy e-bost lle buont yn manylu ar yr ymgysylltu â Booking Holdings. Nododd Partneriaeth Pensiwn Cymru fod yr ymgysylltu hwn yn parhau.
- Robeco: arweiniodd pryderon ynghylch y pecyn taliadau ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol Apple, Tim Cook, at ddeialog ddilynol gyda Robeco trwy e-bost lle gwnaethant gadarnhau eu safle a chynghori eu bod wedi pleidleisio yn erbyn y pecyn taliadau yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Apple.
- Russell a Robeco: arweiniodd pryderon ynghylch ymosodiad Rwsia ar Wcráin at gyfarfod rhithwir gyda Russell, lle buont yn manylu ar gysylltiad Partneriaeth Pensiwn Cymru yma ac yn trafod beth oedd y cynllun wrth edrych tua'r dyfodol. Bu sgysiau e-bost dilynol gyda Russell a Robeco o help i sefydlu'r cysylltiad â stociau yn y marchnadoedd hyn a hwyluso trafodaeth ar y modd yr oedd Partneriaeth Pensiwn Cymru am symud ymlaen mewn perthynas â'r



daliadau hyn. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, gwnaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru benderfyniad i ddadfuddsoddi daliadau lle'r oedd hyn yn bosibl.

- Ymunodd Robeco â RISG ym mis Mai 2021 i drafod eu rhestr gwahardd a'r ymgysylltu parhaus â'r cwmni metelau a mwyngloddio o Frasil, Vale (yn ymwneud â methiannau argae sorod).
- Robeco: ymunodd â RISG ym mis Hydref 2021 i ganiatáu craffu ar ymrwymadau diweddar a gynhaliwyd ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru; trafodwyd pleidleisio, meysydd pleidleisio â blaenoriaeth, datblygu themâu ymgysylltu ac ymgysylltu parhaus â Royal Dutch Shell. Roedd y pwynt olaf yn benodol ynghylch y dyfarniad gan lys o'r Iseldiroedd bod rhaid i Shell dorri ei allyriadau 45% erbyn 2030 (h.y. cynnydd cyflymach nag yr oedd Shell wedi ymrwymo iddo). Dywedodd Robeco bod un o feysydd ffocws allweddol yr ymgysylltu parhaus yn ymwneud â'r ymchwil a datblygu a gaiff ei wario ar feysydd olew newydd, gyda disgwyliad y byddai Shell yn ailgalibradu ei Strategaeth Trawsnewid Ynni yn unol â senario 1.5°C yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol. Tynnodd Robeco sylw yn benodol at yr angen i Shell osod targedau lleihau absoliwt ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig.
- Robeco: sgwrs e-bost i drafod ymgysylltu â Shell ynghylch cyfranogiad y cwmni yn natblygiad maes olew dadleuol Cambo ym Môr y Gogledd (lle roedd ganddo gyfran o 30%). Ers hynny mae Shell wedi tynnu allan o'r prosiect.

Integreiddio stiwardiaeth i benodiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi bfinance yn ymgynghorydd caffael ac ers hynny, gyda chefnogaeth bfinance, mae wedi penodi nifer o ddylanwyr unigol. Sicrhodd Partneriaeth Pensiwn Cymru fod materion stiwardiaeth yn cael eu hystyried ym mhob ymarfer.

- Wrth benodi ymgynghorydd caffael, gofynnwyd i ddarparwyr posibl fynegi sut y byddent yn sicrhau bod credoau Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn eu dull gweithredu. Roedd hyn yn caniatáu i Partneriaeth Pensiwn Cymru ystyried darparwyr a oedd yn dangos aliniad clir yn eu dull o weithredu.
- Chwaraeodd yr asesiad Buddsoddi Cyfrifol hefyd ran hanfodol yn y broses o ddewis dylanwyr marchnad breifat, eto i sicrhau aliniad gyda dull Partneriaeth Pensiwn Cymru. Sgoriwyd dylanwyr posibl o ran: eu hymrwymiad i safonau'r diwydiant a'r modd yr oeddent yn cydymffurfio â hwy; eu dull o integreiddio Buddsoddi Cyfrifol ac o ymgysylltu ag ymarferwyr; eu modd o ddarparu adnoddau Buddsoddi Cyfrifol; a phresenoldeb polisiau ar amrywiaeth a chynhwysiant, hawliau dynol a charbon. Cafodd y dylanwyr hynny â sgoriau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu uwch eu ffafrio.

Mynd i'r afael â risgiau systemig

Mae dull buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys rheoli risg yn effeithiol, sydd, yn ein barn ni, hefyd yn rhan annatod o lywodraethu da. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod rheoli risg yn effeithiol – gan gynnwys strategaethau Buddsoddi Cyfrifol a lliniaru risg hinsawdd, ochr yn ochr ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ehangach – yn hanfodol ar gyfer sicrhau canlyniadau llwyddiannus i'n rhanddeiliaid.

Fel y cyfryw, yn unol â'r Polisi Risg, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod, os cânt eu gadael heb eu rheoli, y gall risgiau effeithio ar allu'r Bartneriaeth (a'r Awdurdodau Cyfansoddol) i weithredu er budd pennaf ein rhanddeiliaid (a'r buddiolwyr), gyda llwyddiant y Bartneriaeth, i raddau, yn ddibynnol ar ein gallu i gydbwysu risg ac ad-daliad yn effeithiol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru felly'n cydnabod bod yn rhaid i strategaeth risg gadarn fod ar waith er mwyn cyflawni ein prif amcanion, gydag Is-grŵp Risg pwrpasol wedi'i sefydlu i gynnal a gwerthuso [Cofrestr Risg](#) Partneriaeth Pensiwn Cymru bob chwarter. Defnyddir y Gofrestr Risg i ddogfennu, rheoli a monitro risg trwy:

- Amlinellu prif risgiau a ffactorau Partneriaeth Pensiwn Cymru a allai gyfyngu ar ein gallu i gyflawni amcanion.
- Mesur difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Crynhoi strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn, effeithiolrwydd strategaethau lliniaru risg presennol a'r gofyniad am fwy o strategaethau lliniaru risg

Mae gan yr Is-grŵp Risg yn arbennig rôl hanfodol wrth fynd ati i nodi'r risgiau presennol a'r rheiny a allai gael eu gwireddu yn y dyfodol, ac wrth asesu effeithiolrwydd mesurau lliniaru risg presennol – neu'r gofynion am fesurau ychwanegol o'r fath. Mae'r Is-grŵp Risg yn cyflwyno argymhellion, i'r Gweithgor Swyddogion, ar y camau y dylid eu cymryd i liniaru neu reoli risgiau ymhellach, er nad yw'n gyfrifol am gyflawni'r camau a argymhellir.

Nodwyd bod newid hinsawdd yn risg systemig

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill, yn ystyried newid yn yr hinsawdd fel risg systemig i'r Bartneriaeth ac i berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod risg hinsawdd o fewn y Gofrestr Risg ac wedi sefydlu Polisi Risg Hinsawdd, gan nodi dull y Bartneriaeth o fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae gwerthusiad Partneriaeth Pensiwn Cymru o'n heffeithiolrwydd yn erbyn ein hymrwymiaadau polisi dros y 12 mis diwethaf wedi'i nodi yn Atodiad 2.

Polisi Partneriaeth Pensiwn Cymru yw y dylai ein nod hinsawdd ein hunain adlewyrchu uchelgeisiau sylfaenol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Nid yw pob Awdurdod Cyfansoddol wedi gosod nodau yn ffurfiol ar sero net, felly nid yw amcan pennaf Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i ffurfio eto. Fodd bynnag, mae trafodaethau ynghylch y pwynt hwn yn parhau i gael sylw yn RISG a bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i weithio ar y pwnc hwn yn ystod 2022/23, gan gefnogi'r gwahanol Awdurdodau Cyfansoddol.

Fel rhan o'r drefn fonitro barhaus, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro ystod o wahanol fetrigau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys metrigau allyriadau. Mae'r tabl isod yn nodi'r newid mewn Dwysedd Carbon Cyfartalog Pwysau (WACI) dros gyfnod 2021/22, gan nodi y bu gostyngiad sylweddol yn WACI ar gyfer yr Is-gronfa Cyfleoedd Byd-eang, gan adlewyrchu gweithredu'r droshaen carbon isel.

Is-gronfa	Dwysedd Carbon Cyfartalog wedi'i Bwysoli (gwerthiannau tCO ₂ /\$m)	
	31.03.2022	31.03.2021
Cyfleoedd Byd-eang	117.4	187.1
Twf Byd-eang	80.6	80.8
Cyfleoedd y DU	104.3	139.2

Marchnadoedd Datblygol

238.3

Amherthnasol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod hyn yn cynrychioli un mesur o risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac mae wedi ymgysylltu â'r holl Awdurdodau Cyfansoddol er mwyn datblygu fframwaith y gall Partneriaeth Pensiwn Cymru a Awdurdodau Cyfansoddol ei ddefnyddio i fesur risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, unwaith y bydd cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yn dod yn ddarostyngedig i ofynion TCFD yn ffurfiol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad TCFD ein hunain maes o law.

Ymhlith y camau eraill y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'u cymryd i ddatblygu'r ymagwedd tuag at risg hinsawdd dros y flwyddyn y mae:

- Symud ymlaen gyda datblygu'r Is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy. Bydd paramedrau'r Is-gronfa hon yn cynnwys disgwyliadau ynghylch targed sero net, uchelgeisiau ynghylch lleihau risg carbon a gwahardd stociau mewn rhai sectorau. Bydd cwblhau'r Is-gronfa hon yn caniatáu i Awdurdodau Cyfansoddol fuddsoddi mewn datrysiadau hinsawdd posibl.
- Parhau i gefnogi gweithgarwch stiwardiaeth sydd â'r nod o ddatgarboneiddio. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gefnogol i'r newidiadau i'n Polisi Pleidleisio sylfaenol ac mae hefyd yn mynd ati i herio Robeco ar weithgarwch Pleidleisio ac Ymgysylltu ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fel y manylir yn yr adroddiad hwn.
- Symud ymlaen gydag ystyried y droshaen carbon isel bresennol ar Is-gronfeydd eraill, er na chafodd camau i gwblhau hyn eu cwblhau yn ystod y flwyddyn.

Aeth Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd ymlaen i benodi Dyraniadau Marchnadoedd Preifat, gyda'r disgwyliad y bydd darparwyr yn hwyluso buddsoddiad mewn datrysiadau hinsawdd. Yn fwyaf nodedig, mae disgwyl i un o'r darparwyr a benodwyd - Octopus - hwyluso buddsoddiad mewn seilwaith ynni adnewyddadwy.

Yn olaf, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl i Ddarparwyr Gwasanaethau weithredu i fynd i'r afael â risg hinsawdd. Mae dau brif Ddarparwr Gwasanaethau Partneriaeth Pensiwn Cymru, Robeco a Russell, bellach yn llofnodwyr y Fenter Rheolwyr Asedau Sero Net ac yn aelodau o Climate Action 100+. Mae'r ymrwymadau hyn yn cael eu croesawu gan y Partneriaeth fel rhai sy'n cefnogi ein huchelgais ehangach. Mae Ymgynghorydd Goruchwylio Partneriaeth Pensiwn Cymru, Hymans Robertson, hefyd yn llofnodwr y Fenter Ymgynghorwyr Buddsoddi Sero Net.

Astudiaeth achos: Ymgysylltu trwy gyfrwng deialog a gweithgarwch pleidleisio wedi'u llywio gan Climate Action 100+

Mae Shell yn gwmni sydd wedi bod yn destun llawer o drafod gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru gyda Robeco, yn enwedig mewn perthynas ag amcanion datgarboneiddio a chynlluniau hinsawdd y cwmni. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd wedi codi cwestiynau ynghylch dyfarniad y llys yn erbyn Shell a'i gynlluniau buddsoddi. Fel un o'r arweinwyr ymgysylltu gyda Shell, mae Robeco wedi bod mewn sefyllfa dda i ymateb i gwestiynau'r Bartneriaeth. Yn benodol, nododd Robeco bwysigrwydd cydweithio trwy gyfrwng CA100+ fel modd o sicrhau bod cwmnïau'n cymryd rhan mewn modd tebyg, gan felly osgoi enwi cwmnïau unigol.

Yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Shell, argymhellodd LAPFF bleidleisio yn erbyn y penderfyniad rheoli hwn ar bryderon ynghylch ymrwymiad Shell i sero net, yn arbennig ynghylch defnyddio mesurau 'dwyster' yn hytrach na gostyngiadau allyriadau absoliwt. Dewisodd Robeco gefnogi Penderfyniad 20, gan deimlo ei fod yn cynrychioli'r cyntaf o'i fath mewn diwydiant wrth gyflwyno ei gynllun pontio hinsawdd ei hun ar gyfer pleidlais cyfranddalwyr. Yn benodol, nododd Robeco fod y cynllun 'Lleisio Barn ar Hinsawdd' ar hyn o bryd yn un o'r cynlluniau mwyaf cywrain a datblygedig yn y sector olew a nwy. Wrth gefnogi'r penderfyniad, cydnabuwyd y bydd angen diweddariadau a gwelliannau pellach ar y cynllun yn y blynyddoedd i ddod. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, mynegodd Robeco awydd i Shell symud yn gyflymach ac i wneud camau sylweddol eisoes yn y dyfodol agos.

Cafodd cynnig cyfranddalwyr hefyd ei ffeilio i Shell osod targedau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y tymor hir, y tymor canolig a'r tymor byr. Yn asesiad Robeco, roedd Shell eisoes wedi gosod un o'r targedau mwyaf datblygedig yn eu sector a dylai'r cwmni yn hytrach ganolbwyntio ar weithredu yn ei gamau nesaf ac felly ymatal rhag pleidleisio ar y penderfyniad hwn.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu bod ein dull o fynd i'r afael â risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn flaengar ac y byddwn yn parhau i elwa o fewnbwn gan randdeiliaid eraill. Un maes ffocws penodol ar gyfer y Partneriaeth yw sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid mewnol ynghylch eu huchelgeisiau hinsawdd yn ystod 2022/23 er mwyn ein galluogi i ffurfio ein nodau ehangach ein hunain.

Ymatebodd Partneriaeth Pensiwn Cymru i argyfwng Wcráin

Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, creodd ymosodiad Rwsia ar Wcráin anhylifedd mewn marchnadoedd, yn enwedig gyda golwg ar stociau Rwsia. Roedd hyn yn creu risg ehangach i'r holl fuddsoddwyr, gyda dadfuddsoddi ond yn ymarferol pan oedd hylifedd ar gael. Roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r farn na allai fynd i'r afael â'r mater hwn yn uniongyrchol trwy ymgysylltu. Mae'r Partneriaeth wedi gofyn i'n darparwyr ddadfuddsoddi oddi wrth asedau Rwsia lle bo'n ymarferol a lle mae hylifedd yn caniatáu hynny.

Cyfathrebu ac adrodd

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu mewn bod yn agored a thryloyw yn ogystal ag ymgysylltu'n rheolaidd gyda'i phrif randdeiliaid. Fel y cyfryw bydd y Bartneriaeth yn sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gael i'r cyhoedd trwy ffrwd gweddarlledu byw. Bydd papurau cyfarfodydd hefyd ar gael i'r cyhoedd. Bydd diwrnodau ymgysylltu gyda'r Bwrdd Pensiwn Lleol hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd fel modd o feithrin cyswllt gyda rhanddeiliaid.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi datblygu ein strategaeth gyfathrebu gan gydnabod yr holl randdeiliaid, a adlewyrchir yn y [Polisi Cyfathrebu](#). Trwy'r polisi hwn mae'r Bartneriaeth wedi adnabod nifer o randdeiliaid allanol, yn ychwanegol at yr Awdurdodau Cyfansoddol ac aelodau gwaelodol y Gronfa Bensiwn y mae'n rheoli arian ar eu rhan, y mae'n dymuno cyfathrebu â nhw. Mae'r rhanddeiliaid allanol hyn yn cynnwys Llywodraeth, Undebau, y cyfryngau a Chyrff Anllywodraethol. Er mwyn sicrhau ymgysylltu a chydweithio parhaus ymhlith y Awdurdodau Cyfansoddol a'r Darparwyr Gwasanaethau, ac i sicrhau adroddiadau digonol i randdeiliaid ehangach a mewnbyn ganddynt, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cyflawni'r canlynol:

Dulliau ymgysylltu	Amllder
Cyfarfod Adolygu Perthynas Strategol	Ddwywaith y flwyddyn
Ymgysylltu â'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu	Chwarterol
Cyfarfodydd / Galwadau Perfformiad Rheolwr	Chwarterol
Digwyddiadau Hyfforddi	Chwarterol
Ymgysylltu â'r Gweithgor Swyddogion	Chwarterol
Cyfarfodydd bob pythefnos	Bob pythefnos
Pwyllgorau Cronfa Bensiwn	Blynnyddol
Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr	Blynnyddol
Cyfathrebu ag Aelodau	Blynnyddol
Ymgysylltu â'r Bwrdd Pensiwn	Bob 6 mis
Ymgysylltu drwy'r wefan a LinkedIn	Parhaus
Holiadur Blynnyddol am Ofynion ac Uchelgeisiau'r Awdurdodau Cyfansoddol	Blynnyddol

Mae'r dull hwn, sy'n darparu cyfathrebu dwy ffordd mynych gyda'r holl randdeiliaid allweddol, yn caniatáu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i roi mewnbyn ar faterion, a datblygu agenda a chynllun busnes parhaus y Bartneriaeth.

Adroddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru i'r Awdurdodau Cyfansoddol

Dros y flwyddyn bu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio i adeiladu'r gwaith adrodd mewnol i sicrhau bod ystod eang o wybodaeth stiwardiaeth ar gael i RISG er mwyn gallu craffu ar weithgarwch. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gofnodion pleidleisio llawn (gan gynnwys lle pleidleisiwyd yn erbyn y rheolwyr), enghreifftiau manwl o bleidleisiau a fwrwyd fesul Is-gronfa (ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau), a phleidleisio ac ymgysylltu cryno. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr adroddiadau yn deg, yn gytbwys ac yn hygyrch. Er bod hyn wedi golygu fod gwybodaeth am weithgarwch stiwardiaeth yn cael ei darparu i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol trwy eu haelodaeth o RISG, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod mai'r cam olaf yn y broses hon wedyn yw rhaeadru gwybodaeth ar y gweithgareddau hyn i'r Awdurdodau Cyfansoddol gwaelodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae hwn yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth ar gyfer 2022/23.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid i benderfynu pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddiwallu anghenion eu Pwyllgorau eu hunain a'r gofynion adrodd, ac i ganiatáu ystod ehangach o heriau yn ôl i'r Bartneriaeth. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori ynghylch adrodd wrth y TCFD.

Adroddiadau gan Ddarparwyr Gwasanaethau

Er mwyn cyfathrebu'n effeithiol â'n cleientiaid, ein buddiolwyr a'n rhanddeiliaid allanol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dibynnu'n helaeth ar yr adroddiadau a ddarperir gan Ddarparwyr Gwasanaethau.

Robeco

Mae Robeco yn darparu adroddiadau Pleidleisio ac Ymgysylltu chwarterol a blynyddol, gan gynnwys manylion pleidleisio llawn yn ôl Is-gronfa (a lansiwyd ar ddechrau 2021) ac enghreifftiau o ymgysylltu manwl. Yn ogystal, caiff Proffiliau Perchnogaeth Weithredol eu diweddarau bron yn fyw, pryd bynnag y bu gweithgarwch ymgysylltu gyda chwmni. Mae'r adroddiadau hyn ar gael i Bartneriaeth Pensiwn Cymru trwy Borth Cleientiaid Robeco.

Russell Investments

Defnyddir data meintiol i ddadansoddi portffolios trwy lens Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae system berchnogol Russell (ExploreR) yn darparu adroddiadau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn seiliedig ar ddaliad, sy'n cynnwys risg Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu gan Sustainalytics ac ôl troed carbon gan MSCI (y ddau yn cael eu cyfleu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru trwy adroddiadau chwarterol a deciau adolygu chwarterol).

Cyflwynir y wybodaeth gan Robeco a Russell yn y RIWG a'r Gweithgor Swyddogion, gyda phob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol wedyn yn gyfrifol am raeadru hyn yn ôl i'w haelodau eu hunain. Er mwyn gwella effeithlonrwydd yma, y bwriad dros 2022/23 yw darparu gwell adroddiadau ar lefel Cronfa, y gellir ei wneud yn bwrpasol i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol, gan gynnwys adroddiadau ymgysylltu ar gyfer Is-gronfeydd penodol (ar hyn o bryd darperir adroddiadau ymgysylltu sy'n ymgorffori ymgysylltiadau ar draws yr holl asedau cyfunol, gan gynnwys rhai gweithredol a goddefol).

Adroddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru i randdeiliaid eraill

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod ein gweithgareddau o ddiddordeb i drydydd partïon ac felly mae'n ymdrechu i adrodd ar ein gweithgareddau yn allanol, fel arfer trwy ein gwefan. Yn benodol, mae'r cyfathrebu dros gyfnod 2021/22 wedi cynnwys:

- Adroddiadau ar y côd stiwardiaeth
- Adroddiad blynyddol ar weithgareddau Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Y newyddion diweddaraf am lansiadau a mentrau cronfa

Nid oes cofnodion pleidleisio manwl wedi'u cyhoeddi eto ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru, er bod y Bartneriaeth yn gweithio gyda Robeco i ystyried hyn ymhellach.

Gweithio gyda'n gilydd

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gall cydweithio â buddsoddwyr a chyrrff cynrychioliadol eraill o'r un anian wneud y mwyaf o ddylanwad asedau'r Bartneriaeth ar y cwmnïau y buddsoddir ynddynt. Un maes cydweithio uniongyrchol y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn rhan ohono yw trwy'r prosiect cydweithio Buddsoddi Cyfrifol Traws-Gronfa pan ddaw unrhyw gyfle addas. Mae'r grŵp yn cynnwys cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o Loegr, Yr Alban a Chymru, ac mae'n cynnwys cronfeydd a gweithredwyr cronfeydd. Mae'r fforwm yn gyfle am drafodaethau rhwng buddsoddwyr y Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gweithredu yn yr un amgylchedd rheoleiddiol a chyda disgwyliadau tebyg gan Awdurdodau Cyfansoddol a buddiolwyr ar faterion Buddsoddi Cyfrifol a materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, ynghyd â phob Awdurdod Cyfansoddol, yn aelodau o LAPFF, sy'n ymgysylltu â chwmnïau ar ran ei holl aelodau. Mae LAPFF yn fforwm ar gyfer cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, a hwn yw'r fforwm ymgysylltu cydweithredol mwyaf i gyfranddalwyr yn y DU, ac mae'n ymgysylltu ar draws ystod eang o themâu Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn aelod cronfa o LAPFF ac mae'n bwydo mewn i'r cynllun gwaith ymgysylltu blynyddol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manteisio'n uniongyrchol ar rybuddion pleidleisio LAPFF, sy'n cael eu bwydo i mewn i'r polisi pleidleisio. Ymhellach, mae gwybodaeth a gafwyd o ymgysylltu â LAPFF yn gosod sylfaen ar gyfer deialog a her barhaus i weithgareddau Robeco ei hun, gan sicrhau felly fod y trafodaethau yn adeiladol.

Partneriaid allanol

Gan fod barn Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gael yr effaith fwyaf posibl trwy flaenoriaethau a chydweithio cydfuddiannol yn cyd-fynd â barn Robeco, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dibynnu'n helaeth ar y Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgymryd ag unrhyw gydweithrediadau perthnasol i'r diwydiant ar ein rhan ac i adrodd yn ôl ar unrhyw gynydd. Mae Robeco yn mynd ati i gydweithio gyda'r canlynol:

- UN PRI
- Net Zero Asset Managers Initiative
- Climate Action 100+
- Taskforce on Nature-related Financial Disclosures
- Platform Biodiversity Accounting Financials
- Finance for Biodiversity Pledge
- Cambridge Institute for Sustainable Leadership
- World Wide Fund for Nature Netherlands
- Investor Mining and Tailings Safety Initiative
- Investor statement on the UN Treaty on Plastics
- Investor Alliance for Human Rights
- Nature Action 100

Yn 2021 ymunodd Robeco â Phwyllgor Ymgynghorol menter Stiwardiaeth Hawliau Dynol newydd y PRI, sy'n ceisio sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl gan fuddsoddwyr tuag at barch gan fusnesau at hawliau dynol ac ymdrechion buddsoddwyr i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol trwy gydweithio. Yn 2021 ymunodd Robeco â Chytuniad y Cenhedloedd Unedig ar Blastigion i ymrwmo i ddatblygu cytuniad byd-eang ar lygredd plastig. Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Cenhedloedd Unedig fandad ar gyfer y Pwyllgor Trafod Rhyngwladol i ddatblygu cytundeb sy'n gyfreithiol rwymol ar lygredd plastig. Mae enghreifftiau penodol o'r ymgysylltiadau cydweithredol y mae Robeco wedi'u cynnal gyda'r cwmnïau y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn buddsoddi ynddynt i'w gweld yn ein hadran 'Sut y gwnaethom ymgysylltu'.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn elwa o'r partneriaethau cydweithredol y mae Russell yn cymryd rhan ynddynt. Mae hyn yn cynnwys y bartneriaeth gyda Sustainalytics, lle mae Russell wedi ymrwmo i bum thema sy'n targedu 20 cwmni:



Sut y gwnaethom bleidleisio

O ystyried ein model gweithredu, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dibynnu'n helaeth ar Ddarparwyr Gwasanaethau i sicrhau bod ein safbwyntiau Buddsoddi Cyfrifol a'n hymagwedd tuag at stiwardiaeth yn cael eu cynnal yn effeithiol ar ein rhan. Fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae ymagwedd Robeco tuag at Fuddsoddi Cyfrifol yn cyd-fynd ag ymagwedd Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan gredu bod perchnogaeth weithredol yn cyfrannu at ganlyniadau buddsoddi ac at y gymdeithas.

Polisi pleidleisio

Er mwyn sicrhau bod pleidleisiau'n cael eu bwrw mewn modd cyson, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi gweithredu un [Polisi Pleidleisio](#) sy'n berthnasol i bob Is-gronfa, a gaiff ei weithredu gan Robeco ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r polisi yn mabwysiadu polisi safonol Robeco, gydag amgylchiadau penodol i'r cwmni ac arferion gorau hefyd yn cael eu hystyried wrth fwrw pleidlais, a chaiff ei adolygu bob blwyddyn o leiaf.

Mae polisi pleidleisio Robeco yn seiliedig ar egwyddorion y Rhwydwaith Llywodraethu Corfforaethol Rhyngwladol (ICGN), gyda Robeco yn monitro cysondeb ei bolisi pleidleisio cyffredinol gydag egwyddorion ICGN. Ar ôl adolygiad blynyddol, ni fydd newidiadau'n cael eu cymhwyso'n awtomatig i bolisi pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru ei hun. Yn hytrach, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n parhau i fodloni disgwyliadau a gofynion Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae'r newidiadau - a'r rhesymeg y tu ôl iddynt - yn cael eu hadolygu gan RISG, gydag argymhelliaid wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ynghylch a ddylid mabwysiadu'r polisi wedi'i ddiweddarau ai peidio.

Er i bolisi safonol Robeco barhau i fod yn berthnasol dros y cyfnod adrodd, cynhaliwyd trafodaethau ynghylch trefniant mwy pwrpasol. Roedd y rhain yn cynnwys profiad Cronfeydd eraill, er enghraifft wrth gyfeirio materion penodol yn ôl at dimau mewnol, er o dan strwythur llywodraethu presennol Partneriaeth Pensiwn Cymru, nodwyd y byddai trefniant o'r fath yn rhwystr posibl i weithredu. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau, gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru yn ffafrio caniatáu cyfnod ymsefydlu ar gyfer y trefniant presennol cyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol.

Er bod polisi safonol Robeco yn cael ei gymhwyso, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd wedi gweithio gyda Robeco i roi ar waith hysbysiad wythnosol o bleidleisiau sydd i ddod, gan ganiatáu i'r Partneriaeth ddiystyru argymhellion pleidleisio os dymunir, er nad oes pleidlais o'r fath wedi'i diystyru eto. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gobeithio gwneud mwy ar y pwynt hwn, gan ddatblygu teclyn yn fewnol a fydd o help i gasglu data cyn pleidleisio mewn modd gwell gan Robeco a chroesgyfeirio hyn gyda rhybuddion pleidleisio gan LAPFF, fel y gall y Partneriaeth gymryd dull mwy rhagweithiol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn gobeithio y bydd hyn yn gwella'r gwaith craffu chwarterol ar bleidleisiau a gynhaliwyd ar ein rhan gan yr Ymgynghorydd Goruchwyllo.

Argymhellion pleidleisio LAPFF

Mae pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn aelodau o'r LAPFF. Mae LAPFF yn anfon rhybuddion pleidleisio i bob Awdurdod Cyfansoddol, gydag argymhellion ar sut y maent yn pleidleisio mewn unrhyw gyfarfodydd sydd i ddod. Rhoddir ystyriaeth i'r rhybuddion pleidleisio hyn pan fydd Robeco yn bwrw pleidleisiau. Yn y mwyafrif helaeth o achosion mae Robeco yn pleidleisio yn unol ag argymhellion y LAPFF. Mewn unrhyw achosion lle nad yw barn Robeco yn cyd-fynd â barn y LAPFF, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dilyn argymhellion Robeco fel ein Darparwr Gwasanaeth dirprwyedig ond bydd yn gofyn am resymau pam nad yw Robeco wedi pleidleisio yn unol â'r LAPFF. Ceir enghraifft o hyn isod:

Astudiaeth achos: LAPFF

Dros y cyfnod adrodd, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Glencore, bwriadodd Robeco bleidlais yn groes i rybudd pleidleisio LAPFF a oedd yn argymhell pleidleisio yn erbyn Cyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol Glencore. Roedd rhybudd LAPFF yn dadlau nad oedd newid hinsawdd wedi bod yn ystyriaeth wrth benodi archwilydd allanol.

Bu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu â Robeco ynghylch y rhesymau y tu ôl i hyn. Dywedodd Robeco, yn benodol gyda golwg ar gynnwys y Cyfrifon a'r Adroddiadau Blynyddol, fod Robeco o'r farn bod Glencore wedi dangos parodrwydd gyda'r adroddiad ar raglen moeseg a chydymffurfiaeth ddiwygiedig y cwmni. Yn wir, roedd Robeco o'r farn nad oedd y fforwm priodol ar gyfer mynd i'r afael â phryderon ynghylch yr hinsawdd yn rhan o'r penderfyniad ar y Cyfrifon a'r Adroddiadau Blynyddol. Yn hytrach, mynegodd Robeco bryderon ynghylch yr hinsawdd yn y penderfyniad 'Lleisio Barn ar yr Hinsawdd'.

Ein blaenoriaethau pleidleisio

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penderfynu ar ein blaenoriaethau pleidleisio ein hunain, yn dilyn ymgynghori â Robeco. Rôl y blaenoriaethau pleidleisio yw darparu meysydd ffocws er mwyn hysbysu Robeco o ddisgwyliadau pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru ac am graffu ar y gweithgarwch pleidleisio sy'n cael ei wneud ar ran y Partneriaeth, er mwyn sicrhau bod ardaloedd o'r fath yn adlewyrchu'r pynciau hynny sydd fwyaf perthnasol/o bryder mwyaf i'r Partneriaeth a bod yr arfer o bleidleisio yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir. Nid yw blaenoriaethau pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi newid o'r cyfnod adrodd blaenorol, wrth iddynt barhau i adlewyrchu blaenoriaethau'r Awdurdodau Cyfansoddol. Darperir isod amlinelliad o flaenoriaethau pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru, y rhesymeg y tu ôl i'w cynnwys a sut y maent yn gysylltiedig â pholisi mewnol Robeco.


Blaenoriaeth Pleidleisio	Rhesymeg
Rheoli newid hinsawdd	Gall newid hinsawdd gael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar berfformiad a gwerth cyfranddaliadau cwmni. Mae newid hinsawdd, a'i reoli'n effeithiol, yn fater y dylai cwmnïau ymhob diwydiant ei ystyried a mynd i'r afael ag ef er mwyn diogelu gwerth cyfranddaliadau.
Datgeliadau risg hinsawdd	Mae risg hinsawdd yn cynrychioli risg ariannol bosibl i fuddsoddwyr, benthycwyr a rhanddeiliaid eraill. Felly mae ganddynt hawl i wybod: effeithiau gwirioneddol a phosibl risgiau a chyfleoedd yn gysylltiedig â hinsawdd ar fusnesau, strategaeth a chynllunio ariannol y sefydliad; sut mae'r sefydliad yn adnabod, asesu a rheoli risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd; y metrigau a thargedau a ddefnyddir i asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd perthnasol yn gysylltiedig â hinsawdd.
Gwella trefn lywodraethu cyfranddalwyr	Gall gofynion pleidleisio uwchfwyafrol rwystro cyfranddalwyr rhag gweithredu camau llywodraethu pwysig sydd er budd pennaf iddynt. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu fod Hawliau Pleidleisio yn hollbwysig wrth ddiogelu a gwella gwerth hirdymor ein buddsoddiadau, ac o'r herwydd mae'n pleidleisio yn erbyn trefniadau llywodraethu pleidleisio sy'n annemocrataidd ac sy'n cyfyngu ein gallu i greu newid sydd er budd pennaf ein rhanddeiliaid
Amrywiaeth ar y Bwrdd	Mae'n llesol i fwrdd gael ystod amrywiol o bersbectifau a sgiliau. Dylai lefelau uchel o amrywiaeth ar y bwrdd a lefelau digonol o adnewyddu'r bwrdd feithrin trafod a her adeiladol, cynhyrchu syniadau newydd a rheolaeth effeithiol, a ddylai yn ei dro greu gwerth i gyfranddalwyr.
Cadw a datblygu cyfalaf dynol	Trwy annog cwmnïau i ddatgelu eu polisïau, perfformiad a thargedau gwelliant ar risgiau cyfalaf dynol perthnasol bydd cyfranddalwyr yn cael gwell darlun o sut aeth y cwmni ati i ymdrin â mater cyfalaf dynol o ran y tîm arwain presennol a ffynhonnell denu talent i'r dyfodol. Bydd rheoli a datblygu cyfalaf dynol yn effeithiol yn llesol i werth cyfalaf a marchnad cyffredinol y cwmnïau y buddsoddir ynddynt.
Tâl Prif Swyddogion: ffocysu ar ganlyniadau hirdymor	Bydd cyfarwyddwyr yn gwneud penderfyniadau sydd er lles hirdymor y cwmni os yw eu tâl eu hunain yn gysylltiedig â'r metrig perfformiad hwn. Dylai pecynnau tâl sydd ynghlwm wrth brofiad cyfranddalwyr a gweithwyr annog cyfarwyddwyr i ystyried gofynion cyfranddalwyr a diogelu prif ffynhonnell cyfalaf dynol, eu gweithwyr.

Er mwyn sicrhau eu perthnasedd a'u defnydd parhaus, mae RISG (ar y cyd â Hymans Robertson) yn parhau i adolygu a chraffu ar yr holl ddata pleidleisio chwarterol a ddarperir gan Robeco i sicrhau bod disgwyliadau Partneriaeth Pensiwn

Cymru yn cael eu bodloni. Un newid yn ystod y flwyddyn fu annog adrodd ar sail Is-gronfa - llwyddodd Robeco i hwyluso hyn, a thrwy hynny ganiatáu adroddiadau manylach i Awdurdodau Cyfansoddol yn unol â'u buddsoddiadau eu hunain.


Ein canlyniadau pleidleisio

Mae'r map isod yn dangos y rhanbarthau lle bwriwyd pleidleisiau dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022, a bennwyd yn ôl dosbarthiad rhanbarthol gwaelodol asedau o fewn Is-gronfeydd ecwiti Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nid yw'r data ar gyfer Is-gronfeydd Ecwiti Marchnad Ddatblygol wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad hwn, o ystyried bod Robeco ond wedi cymryd cyfrifoldeb am bleidleisio ar yr Is-gronfa hon o 10 Mawrth 2022.



	2021/22
Nifer y cyfarfodydd	788
Nifer y pleidleisiau a fwriwyd	10,927
Dros	9,871
Heb bleidleisio	46
Ymatal	69
Yn erbyn	923
Arall	18
Gyda'r rheolwyr	9,453
Yn erbyn y rheolwyr	1,474
Cyfarfodydd lle'r oedd o leiaf un bleidlais yn erbyn rheolwyr	61%

Voting per proposal category



Canlyniadau pleidleisio yn ôl Is-gronfa

Twf Byd-eang




Cyfarfodydd: 188

Eitemau ar yr agenda: 2,626




■ With management
■ Against management



■ Audit/Financials
■ Board Related
■ Capital Management
■ Changes to Company Statutes
■ Compensation
■ M&A
■ Meeting Administration
■ Other
■ SHP: Compensation
■ SHP: Environment
■ SHP: Governance

Cyfleoedd Byd-eang




Cyfarfodydd: 511

Eitemau ar yr agenda: 6,170




■ With management
■ Against management



■ Audit/Financials
■ Board Related
■ Capital Management
■ Changes to Company Statutes
■ Compensation
■ M&A
■ Meeting Administration
■ Other
■ SHP: Compensation
■ SHP: Environment
■ SHP: Governance

Cyfleoedd y DU




Cyfarfodydd: 189

Eitemau ar yr agenda: 3,199



■ With management
■ Against management



■ Audit/Financials
■ Board Related
■ Capital Management
■ Changes to Company Statutes
■ Compensation
■ M&A
■ Meeting Administration
■ Other
■ SHP: Compensation
■ SHP: Environment
■ SHP: Governance

Sicrhau bod pleidleisio'n cyd-fynd â pholisi

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu'r gweithgarwch pleidleisio a wnaed gan Robeco bob chwarter ac yn nodi, ar draws ystod o benderfyniadau, bod pleidleisiau wedi'u bwrw yn unol â bwriadau'r Bartneriaeth. Ceir enghreifftiau o hyn isod:

Cwmni: Alibaba Group: Cwmni technoleg amlwladol Tsieineaidd, yn canolbwyntio'n arbennig ar e-fasnach

Dyddiad: 17 Medi 2021

Pleidlais? Un bleidlais o blaid a dwy yn erbyn penderfyniadau'r rheolwyr ar etholiadau'r bwrdd

Rhesymeg? Roedd Robeco o blaid ethol Llywydd y Grŵp a'r un a enwebwyd gan Bartneriaeth Alibaba, cytundeb partneriaeth ffurfiol a gychwynnwyd gan sylfaenwyr y Grŵp yn 2010. Mae gan Bartneriaeth Alibaba yr hawl unigryw i enwebu a phenodi hyd at fwyaftrif syml o aelodau i fwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni. Ar hyn o bryd mae 5 allan o'r 11 cyfarwyddwr yn y bwrdd yn cael eu penodi gan y Bartneriaeth, gan arddangos y cyfyngiadau presennol ar hawliau cyfranddalwyr lleiafrifol.

Penderfynodd Robeco wrthwynebu ethol is-gadeirydd gweithredol Alibaba Group, sy'n gwasanaethu fel aelod o'r Pwyllgor Taliadau ac fel cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebu. Maent o'r farn y dylai pwyllgorau allweddol fel y pwyllgor enwebu a thaliadau gael lefel uchel o annibyniaeth. Yn ogystal, gwrthwynebodd Robeco ethol cyfarwyddwr sy'n gwasanaethu fel Prif Swyddog Gweithredol a llywydd cwmni cyfathrebu mawr, wrth wasanaethu ar gyfanswm o dri bwrdd cwmni cyhoeddus. O ddeall prinder amser, credwn nad yw cyflawni cyfrifoldebau'r holl swyddi hynny'n hawdd ei reoli ac y gallai'r cyfarwyddwr dan sylw fethu yn ei ddyletswyddau ymddiriedol tuag at y cyfranddalwyr. Yn olaf, nododd Robeco bryder gan ddiffyg cadeirydd annibynnol neu arweinydd annibynnol, yn enwedig gyda'r nifer uchel o gyfarwyddwyr cysylltiedig/mewnol o fewn y bwrdd, gan gredu y byddai cadeirydd annibynnol yn arwain at oruchwyllo penderfyniadau'r rheolwyr yn well ac y byddai'n gwasanaethu buddiannau cyfranddalwyr lleiafrifol.

Canlyniad? Pasiwyd y tri phenderfyniad rheoli (o leiaf 73% o blaid)

Cwmni: BHP Group Limited: Cwmni amlwladol o Awstralia sy'n gweithio yn y diwydiant echdynnu (metelau a mwyngloddio, olew a nwy)

Dyddiad: 11 Tachwedd 2021

Pleidlais? Yn erbyn penderfyniad y rheolwyr i gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Pontio Hinsawdd

Rhesymeg? Cyflwynodd BHP eu Cynllun Pontio Hinsawdd, gan gynghori y byddai'n chwarae rhan bwysig yn y cyfnod pontio sero net, gan gynnwys o ran gostyngiadau allyriadau (Cwmpasau 1, 2 a 3) ac wrth alinio cyfalaf. Fodd bynnag, yn unol ag argymhellion pleidleisio LAPFF, teimlai Robeco fod gan y Cynllun Gweithredu sawl diffyg, gan gynnwys gorddibyniaeth ar dechnolegau penodol, megis dal a storio carbon.

Canlyniad? Pasiwyd penderfyniad y rheolwyr: 84.9% o blaid

Cwmni: Exxon Mobil: Cwmni amlwladol yr Unol Daleithiau yn y sector olew a nwy

Dyddiad: 26 Mai 2021

Pleidlais? Cefnogodd Robeco yr holl gynigion gan gyfranddalwyr (ar wahân i un 'cynnig Ceffyl Caerdroea', a oedd yn ceisio cyfyngu ar gynnydd materion yn gysylltiedig â'r hinsawdd) a bwrdd anghytunol o 13 enwebai, yn ogystal â phleidleisio yn erbyn ail-ethol cadeirydd y bwrdd a chyfarwyddwr annibynnol arweiniol oherwydd nad oeddent yn mynd i'r afael yn ddigonol â phryderon cyfranddalwyr ynglŷn â'r hinsawdd.

Pam? Ffeiliodd y buddsoddwr actifydd sy'n canolbwyntio ar Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, Engine No. 1, benderfyniadau yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Exxon gyda'r nod o ddisodli pedwar cyfarwyddwr gyda'u hymgeiswyr eu hunain fel rhan o ymgyrch i wella goruchwyliaeth hinsawdd ar y bwrdd. Dadl graidd Engine No. 1 oedd bod bwrdd ExxonMobil, sy'n llawn o Brif Swyddogion Gweithredol yn rhai o gwmnïau mwyaf America, ddim mewn gwirionedd yn cynnwys unrhyw un sydd â phrofiad pwrpasol o'r diwydiant ynni. Enwebodd bedwar ymgeisydd o'r byd ynni yn yr Unol Daleithiau ac Ewrop, gyda'r enwebiadau'n llwyddiannus i raddau helaeth, gan arwain at dri aelod newydd yn ymuno â'r bwrdd, a ddewiswyd yn y pen draw am eu harbenigedd mewn cynaliadwyedd a thrawsnewid ynni.

Mae penderfyniad arall a gafodd gymeradwyaeth cyfranddalwyr yn ymwneud â'r datgeliad ar weithgareddau lobïo Exxon a gwariant cysylltiedig, a ofynnodd i'r cwmni ddweud a yw ei lobïo yn cyd-fynd â Chytundeb Paris a sut y mae'n gwneud

hynny. Yn y diwedd, enillodd Engine No. 1 frwydr ddirprwyol ddrud iawn gyda dim ond 0.002% o'r stoc, trwy ddefnyddio anfonlonrwydd cyfranddalwyr i gefnogi achos busnes ar gyfer newid ystyrion. Er bod hyn yn sicr wedi cael ei helpu gan berfformiad gwael Exxon Mobil, gyda cholledion y llynedd o \$22 biliwn (doleri'r UD) (ei berfformiad gwaethaf mewn deugain mlynedd), roedd hefyd oherwydd ansawdd yr enwebeion, a enillodd gefnogaeth gan rai o'r buddsoddwyr sefydliadol mwyaf yn yr Unol Daleithiau.

Canlyniad? Etholwyd tri o'r enwebeion anghytunol (o leiaf 72% o blaid); pasiwyd penderfyniad y cyfranddalwyr ar lobio hinsawdd (63.8% o blaid)

Cwmni: Pilgrim's Pride: Cwmni bwyd amlwladol wedi'i leoli ym Mrasil

Dyddiad: 28 Ebrill 2021

Pleidlais? Ar gyfer penderfyniad y cyfranddalwyr yn gofyn am adroddiad ar gysylltu iawndal prif swyddogion â metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Rhesymeg? Roedd penderfyniad y cyfranddalwyr yn gofyn i'r Bwrdd archwilio ac adrodd ar sut y mae'n bwriadu integreiddio metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu i fesurau perfformiad swyddogion gweithredol a enwir o dan ei gynlluniau iawndal cymhelliant. Yn benodol, roedd y penderfyniad yn ceisio mynd i'r afael â diffygion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu hanesyddol sy'n gysylltiedig â diogelwch gweithwyr o Pilgrim's Pride, gan gynnwys: ymateb beirniadol i'r pandemig COVID-19; cofnod o anafiadau a marwolaethau ymhlith ei weithlu yn ei weithfeydd prosesu dofednod; a thorri rheolau iechyd a diogelwch dro ar ôl tro.

Canlyniad? Methodd penderfyniad y cyfranddalwyr: 5.1% o blaid

Cwmni: Tesla: Cwmni modur ac ynni glân amlwladol yn yr Unol Daleithiau

Dyddiad: 7 Hydref 2021

Pleidlais? Ar gyfer penderfyniad y rheolwyr yn gofyn am ddileu gofynion uwchfwafrifol

Rhesymeg? Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Tesla yn 2021 roedd sawl cynnig yn barod am bleidlais i wella llywodraethu corfforaethol yn y cwmni. Yn benodol, rhoddodd y rheolwyr gynnig i ddileu gofynion pleidleisio uwchfwafrifol cymwys. Roedd Robeco yn falch o weld ffocws cryf ar wella llywodraethu corfforaethol o blith y rheolwyr yn ogystal â chyfranddalwyr. Cefnogodd Robeco gynnig y rheolwyr i ddileu gofynion pleidleisio uwchfwafrifol, oherwydd gall gofynion pleidleisio uwchfwafrifol rwystru gallu cyfranddalwyr i gymeradwyo eitemau pleidleisio sydd er eu lles. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i bleidlais gadarnhaol deiliaid o leiaf ddwy ran o dair o'r stoc gyffredin sy'n weddill gan y Cwmni ddiwygio'r dystysgrif a'r is-ddeddfau. Gwnaed y rhwystr y gofynnwyd amdano gan y gofyniad uwchfwafrifol yn glir trwy ganlyniadau pleidleisio'r cynnig.

Canlyniad? Er i'r cynnig dderbyn cyfradd gymeradwyo o 60% o'r holl bleidleisiau a fwrwyd yn y cyfarfod, nid oedd yn cwrdd â'r gofyniad o bleidleisiau cadarnhaol sef o leiaf 66.6% o gyfanswm y cyfranddaliadau sy'n weddill. Fel y cyfryw, ni chafodd y cynnig ei gymeradwyo gan y cyfarfod.

Cwmni: Apple: Cwmni technoleg amlwladol yr Unol Daleithiau sy'n arbenigo mewn electroneg a meddalwedd defnyddwyr

Dyddiad: 4 Mawrth 2022

Pleidlais? Yn erbyn penderfyniad y rheolwyr yn gofyn am gymeradwyo ei adroddiad taliadau ('Say on Pay'). O blaid penderfyniadau'r cyfranddalwyr: yn gofyn am adroddiad ar effeithiolrwydd polisiâu cadwyn gyflenwi ar lafur gorfodol; gyda golwg ar gymalau cuddio; gyda golwg ar adroddiad ar ecwiti cyflog canolrifol rhywedd a'r hiliau

Rhesymeg? O ran yr adroddiad iawndal gweithredol, roedd Robeco yn pryderu bod y cynllun cymhelliant hirdymor yn or-ddibynnol ar un metrig cymharol (TSR) yn unig. Byddai hyn yn caniatáu i Unedau Stoc Perfformiad gael eu capio at y targed, hyd yn oed pan fydd TSR yn negyddol. Roedd Robeco hefyd yn pryderu am y cwantwm uchel o gyfanswm iawndal i bob swyddog gweithredol a enwir a'r Prif Swyddog Gweithredol.

Cefnogodd Robeco gynnig y cyfranddalwyr yn gofyn i'r cwmni adrodd ar lafur gorfodol yn ei gadwyn gyflenwi, gan gredu y byddai galwad y cynnig am dryloywder ynghylch effeithiolrwydd ymrwymiad y cwmni i hawliau dynol o fudd i gyfranddalwyr. Yn ogystal, cefnogodd Robeco benderfyniad y cyfranddalwyr yn gofyn i Apple roi gwybod am fylchau cyflog canolrifol ar draws hil a rhyw, gan gynnwys polisi cysylltiedig, enw da, risgiau cystadleuol a gweithredol, a risgiau'n ymwneud

â recriwtio a chadw talent amrywiol. Roedd Robeco hefyd yn cefnogi cynnig y cyfranddalwyr ynglŷn â'r cymalau cuddio. Roedd y penderfyniad yn gofyn i'r cwmni baratoi adroddiad cyhoeddus yn asesu'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'i ddefnydd o gymalau cuddio mewn cytundebau cyflogaeth, yng nghyd-destun aflonyddu, gwahaniaethu a gweithredoedd anghyfreithlon eraill. Cafodd y penderfyniad gefnogaeth gan 50% o'r cyfranddalwyr. Mae Robeco o'r farn y gallai'r adroddiad hwn helpu cyfranddalwyr i sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw trylwyr ac yn cael eu hystyried gan y bwrdd a'r rheolwyr.

Canlyniad? Pasiwyd penderfyniad y rheolwyr (64.4% o blaid); methodd penderfyniadau'r cyfranddalwyr ar yr adroddiadau ar lafur gorfodol a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau/hiliau (tua 33% o blaid yn y ddau achos); pasiwyd penderfyniad y cyfranddalwyr ar gymalau cuddio (50% o blaid)

Sut y gwnaethom ymgysylltu

Fel cronfa yn ei chyfanrwydd, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn eiriolwr dros ymgysylltu i raddau helaeth iawn, gan gydnabod manteision ehangach perchnogaeth weithredol wrth ffurfio ymddygiad. Dyma un o'r rhesymau pam y dewisodd Partneriaeth Pensiwn Cymru Robeco fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu yn 2020, o ystyried bod ganddynt farnau sy'n cyd-fynd â'i gilydd, sef bod deialog adeiladol yn arf effeithiol ar gyfer perchnogion asedau, yn hytrach na gwahardd. Mae Robeco yn ymgysylltu ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn tair ffordd:

- **Ymgysylltu â gwerth:** dull rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd a risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu hirdymor, o bwysigrwydd ariannol a all effeithio ar werthiant cwmnïau a'u gallu i greu gwerth.
- **Ymgysylltu gwell:** yn canolbwyntio ar gwmnïau sy'n torri normau ymddygiadol gofynnol yn ddifrifol ac yn strwythurol mewn meysydd megis hawliau dynol, llafur, yr amgylchedd a gwrth-lygredd. Y prif amcan yw mynd i'r afael â diffygion a adroddwyd yn erbyn codau ymddygiad a dderbynnir yn rhyngwladol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, cyfrifoldeb cymdeithasol, yr amgylchedd a thryloywder.
- **Ymgysylltu â Nodau Datblygu Cynaliadwy:** yn edrych ar yrru gwelliant clir a mesuradwy yng nghyfraniad cwmni i Nodau Datblygu Cynaliadwy dros dair i bum mlynedd. Trwy sicrhau bod perthnasedd parhaus cwmni yn cael ei adlewyrchu gan ei allu i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol allweddol, mae'r strategaeth hon yn creu gwerth i fuddsoddwyr a'r gymdeithas yn gyffredinol.

Prif fewnbwn Partneriaeth Pensiwn Cymru i'r broses hon yw cyfrannu at adnabod themâu ar gyfer ymgysylltu rhagweithiol sy'n darparu gwerth.

Rhoi mewnbwn i themâu ymgysylltu

Bob mis Tachwedd, mae Robeco yn dewis tair i bum thema ymgysylltu newydd, sy'n ystyried pynciau o bwysigrwydd ariannol sy'n mynd i'r afael â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae pob thema yn canolbwyntio ar 10–15 o gwmnïau, lle mae Robeco yn teimlo bod angen effaith ac y gall fod o bwysigrwydd ariannol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu parhaus â chynrychiolwyr y cwmni yn ystod y cyfnod hwn i drafod yr effaith ar gynaliadwyedd, y risgiau a'r cyfleoedd.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cymryd rhan weithredol ym Mhanel Cleientiaid Blynnyddol Robeco, gan ddarparu mewnbwn a thrafodaeth i'r broses hon. Cafodd themâu a godwyd gyda Robeco i'w hystyried eu coladu gan Awdurdodau Cyfansoddol a'u rhannu gyda Robeco cyn y drafodaeth hon ac roeddent yn cynnwys:

- **Ariannu allyriadau carbon:** gan ganolbwyntio ar sicrhau bod gan y rheiny sy'n benthyg arian i ariannu neu yswirio prosiectau tanwydd ffosil bolisiau cliriach mewn lle i atal hyn dros amserlen fer.
- **Amrywiaeth ymhlith uwch-reolwyr:** gan gydnabod bod ffocws wedi bod ar feithrin amrywiaeth ar lefel y bwrdd, mae'n parhau i fod yn bwysig sicrhau bod hyn yn digwydd ar draws pob lefel o sefydliad. Yn benodol, tynnodd Partneriaeth Pensiwn Cymru sylw at y diwydiant gwasanaethau ariannol a'r Siarter Amrywiaeth Perchnogion Asedau.
- **Cadwyni cyflenwi ac effeithiau unedau pŵer cerbydau trydan ar gylch bywyd cynnyrch:** Nododd Partneriaeth Pensiwn Cymru fod yna fanteision amgylcheddol yn y newid i economi carbon is, ac roedd am sicrhau bod mecanweithiau'n cael eu rhoi ar waith mor gynnar â phosibl i annog ailddefnyddio ac ailgylchu, yn enwedig o fewn y diwydiant modur.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod ei bod yn un o nifer o leisiau yn y broses o osod themâu ymgysylltu, ond roedd yn falch o weld bod nifer o'n meysydd ffocws yn cael eu hadlewyrchu yn y pedair thema ymgysylltu a ddewiswyd i ddechrau arnynt yn 2022. Y meysydd hynny yw:

- **Allyriadau sero net:** ehangiad o'r un a lansiwyd yn 2020, gan ganolbwyntio ar gwmnïau allyriadau carbon uchel sydd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ond sy'n dal ar ei hôl hi o ran trosglwyddo i sero net. Mae hyn yn cwmpasu cwmnïau sy'n cael sgoriau ambr ar [system goleuadau traffig](#) Robeco ar gyfer y 200 o allyrwyr uchaf, o gymharu â chwmnïau sydd mewn coch ac mewn perygl o fethu yn y cyfnod pontio, ac yna cânt eu dewis ar gyfer gwell ymgysylltu mewn perthynas â'r hinsawdd yn y thema 'Cyflymu tuag at Gytundeb Paris' a lansiwyd yn 2021.

- **Rheoli adnoddau naturiol** : mae'n canolbwyntio ar gwmnïau y mae rheoli defnydd dŵr a gwastraff dŵr ar eu cyfer yn fater o bwys iddynt. Mae angen i fuddsoddwyr gyfrif am faint o ddŵr ffres sydd ei angen i wneud cynhyrchion penodol - yn aml caiff ei dynnu o lefydd lle mae dŵr eisoes yn brin - tra bod rhyddhau gwastraff gwenwynig yn parhau i fod yn broblemus. Bydd y thema ymgysylltu hon yn canolbwyntio ar gwmnïau sy'n wynebu materion amgylcheddol megis mwyngloddio ar wely'r môr ac ar dir, allyriadau cemegau lludw tanwydd maluriedig, prinder dŵr, gwastraff amaethgemegol a gwastraff plastig.
- **Amrywiaeth a chynhwysiant**: mae datblygiad dynol hefyd yn hanfodol i fyd mwy cynaliadwy a llewyrchus, yn enwedig wrth elwa ar y manteision a all ddod yn sgil mwy o gynhwysiant. Mae'r thema hon yn adeiladu ar waith blaenorol wrth hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn y gweithle, gan geisio sicrhau hawliau cyfartal – yn enwedig ar gyfer cyfranogiad gan fenywod mewn rolau uwch, gan gynnwys ar lefel bwrdd – a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.
- **Nature Action 100**: cydweithrediad newydd i amddiffyn yr amgylchedd naturiol a'r miliynau o rywogaethau o anifeiliaid, planhigion a bywyd môr sy'n byw o'i fewn – llawer ohonynt dan fygythiad gan ddatblygiad dynol. Mae'n adeiladu ar waith bioamrywiaeth blaenorol ac mae wedi'i fodelu ar y bartneriaeth ClimateAction 100+ bresennol gyda buddsoddwyr eraill. Robeco yw un o'r prif fuddsoddwyr sy'n gyrru datblygiad yr ymgysylltu cydweithredol newydd.

Y broses ymgysylltu

Beth bynnag yw'r math o ymgysylltu, dilyniir proses CAMPUS bum cam wrth sefydlu amcanion ymgysylltu penodol (a mesuradwy).

Mae Robeco yn pennu amcanion ymgysylltu ar ddechrau'r broses ymgysylltu. Mae hyn yn ffurfio rhan allweddol o'r cam ymchwil thema ymgysylltu, ac yn sicrhau bod ymgysylltu yn dechrau gyda dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd y mater Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu dan sylw, perfformiad cyfredol y cwmni ar y mater a'i gysylltiad â'r mater, a'i berfformiad sylfaenol yn erbyn yr amcanion ymgysylltu a osodwyd. Bob tro y gwneir cyswllt â chwmni, mae Robeco yn trafod yr amcanion ymgysylltu ac yn asesu'r cynnydd y mae cwmni'n ei wneud tuag atynt. Mae'r broses hon yn rhoi sicrwydd i Bartneriaeth Pensiwn Cymru bod dull cadarn o arfer stiwardiaeth – ac, yn bwysig, un y gellir ei fonitro a'i adolygu – yn cael ei gymryd ar ran y Gronfa.




Fel arfer, mae ymgysylltu yn dechrau trwy esbonio'r amcanion i adran Cysylltiadau Buddsoddwr cwmni drwy e-bost, llythyr neu alwad ffôn, ac yna galwadau cynhadledd neu gyfarfodydd gydag arbenigwyr technegol. Enghreifftiau o arbenigwyr o'r fath yw'r Pennaeth Rheoli Risg, Pennaeth Cynaliadwyedd, Pennaeth Rheoli'r Gadwyn Gyflenwi ac amrywiaeth eang o arbenigwyr gweithredol eraill. Defnyddir sioeau teithiol y cwmni pan fyddant ar gael. Gan amlaf, mae Robeco yn estyn allan i gwmnïau yn hytrach na'r ffordd arall. Mae uwch swyddogion gweithredol a rheolwyr anweithredol (Ysgrifennydd y Bwrdd, Cadeirydd, Prif Swyddog Ariannol, Prif Swyddog Gweithrediadau, neu Brif Swyddog Gweithredol) hefyd yn aml yn rhan o'n trafodaethau. Yn olaf, os nad yw Cysylltiadau Buddsoddwyr yn ymateb i wahoddiad i ymgysylltu, mae Robeco yn mynd at yr uwch-reolwyr yn uniongyrchol.



Ymgysylltu yn ystod 2021

Rhoddir adroddiad ar weithgarwch ymgysylltu mewn perthynas â blwyddyn*galendr 2021, pryd y bu Robeco yn ymgysylltu ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru ar nifer o faterion. Er bod 23% o weithgareddau ymgysylltu yn ymwneud ag asedau lle'r oedd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddaliadau credyd ac ecwiti, roedd y gweddill mewn perthynas â daliadau ecwiti yn unig. Nid yw Robeco yn gwahaniaethu rhwng natur daliadau yn eu gweithgarwch ymgysylltu o ystyried eu bod yn cynrychioli nifer o gleientiaid.

O ystyried natur fyd-eang buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru, cynhaliwyd gweithgarwch ymgysylltu ar draws sawl rhanbarth, gyda'r gweithgarwch wedi'i rannu fel y dangosir ar y dde.




Ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru, cyflogodd Robeco nifer o wahanol lwybrau ar gyfer ymgysylltu, gan gynnwys galwadau cynhadledd, ysgrifennu llythyrau, negeseuon e-bost a phleidleisio gweithredol. Yn 2021 bu cyfanswm o 263 o ymgysylltiadau ar draws ystod eang o themâu fel y dangosir isod.



Ffynhonnell: Robeco

Fel y nodwyd uchod, mae'r themâu eang hyn yn cynnwys ystod o is-themâu ychwanegol, y gwnaed cynnydd amrywiol yn eu herbyn. Yn y tabl isod, rydym yn manylu ar bob thema, nifer y cwmnïau o fewn portffolios Partneriaeth Pensiwn Cymru yr aethpwyd ati i ymgysylltu â hwy ac yn rhoi rhyw arwydd o gynnydd yn erbyn pob thema. Mae'r siart hefyd yn nodi nifer y cwmnïau yr ymgysylltwyd â hwy o dan bob thema (dangosir y ffigur mewn cromfachau), gan nodi bod rhai cwmnïau'n cael eu cynnwys o dan sawl thema.

* Hyd yma, cynhaliwyd 280 o ymgysylltiadau ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystod y cyfnod adrodd (yn unol â'r nifer a nodwyd ar dudalennau 2 a 3 o'r adroddiad hwn), ond mae'r manylder a drafodwyd yn yr adran hon yn adlewyrchu ymgysylltiadau a gynhaliwyd dros flwyddyn galendr 2021



Ffynhonnell: Robeco

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn gwybodaeth sylweddol, gan gynnwys gwybodaeth ar bob thema a manylion y gweithgarwch a wneir bob blwyddyn. Rydym yn crynhoi pedair thema isod sydd o ddiddordeb arbennig i Bartneriaeth Pensiwn Cymru o ystyried ein blaenoriaethau pleidleisio a thrafodaethau eraill dros y flwyddyn.

Rheoli cylch bywyd mwyngloddio

Wrth anelu at gyflawni amcanion Cytundeb Paris, rhaid i'r byd gynyddu cynhyrchiant technolegau gwyrdd yn radical megis paneli solar, tyrbinau gwynt, batris a cherbydau trydan. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu mwy o weithgarwch mwyngloddio, sy'n aml yn cael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd ac ar gymunedau lleol. Yn wir, mae achosion sydd wedi cael llawer o sylw o argaeau sorod yn methu yn amlygu nid yn unig canlyniadau difrifol y methiannau llywodraethu hyn o safbwynt amgylcheddol a hawliau dynol, ond hefyd y gost o ran enw da a'r gost economaidd i'r cwmnïau mwyngloddio eu hunain. Amcan yr ymgysylltu yw annog y cwmnïau mwyngloddio y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn buddsoddi ynddynt i asesu, rheoli a lleihau eu hól troed amgylcheddol. Yn y blynyddoedd cyntaf o ymgysylltu, trafodwyd dau o'r materion cynaliadwyedd pwysicaf ar gyfer y diwydiant mwyngloddio: rheoli dŵr a risgiau diogelwch sorod.

Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, cymerodd Robeco ran yn ymgyrch Peidio â Datgelu CDP, gan ofyn i bum cwmni mwyngloddio ddatgelu eu harferion dŵr a'u perfformiad yn Asesiad Diogelwch Dŵr blynyddol y CDP. O ganlyniad, ymatebodd tri ohonynt am y tro cyntaf, gan wella eu datgeliadau yn sylweddol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith ar osod targedau.

O ran diogelwch sorod, mae'r diwydiant wedi ymateb yn gadarnhaol i'r alwad am ddatgeliadau gwell. Mae'r fenter Mwyngloddio a Sorod Buddsoddwyr (Investor Mining and Tailings) wedi chwarae rhan bwysig wrth ddod â'r pwnc hwn i sylw'r prif reolwyr ar draws yr holl gwmnïau mwyngloddio. Mae pob cwmni sy'n rhan o weithgarwch ymgysylltu Robeco, ac eithrio un (92%), bellach yn datgelu gwybodaeth am eu holl gyfleusterau storio sorod sy'n weithredol.

Astudiaeth achos: Anglo American

Dangosodd Anglo American fod mentrau gweithredol ar waith yn y cwmni i sicrhau bod mwyngloddiau yn cau fel sy'n briodol a bod ymdrechion yn dilyn ar ôl eu cau. Sefydlodd y cwmni becyn cymorth cau mwyngloddiau yn 2019 a ddefnyddir i amlinellu'r modd y caiff yr ymdrechion hyn eu cyflawni. Mae'r cwmni'n nodi risgiau amgylcheddol yn ddigonol ac yn integreiddio cau mwyngloddiau yn ei gynlluniau busnes, ac yn darparu rhai amcanion a thargedau sy'n gysylltiedig â'u cau. Ymhellach, dangosir darpariaethau ariannol yn y modd y cânt eu darparu (h.y. ar ffurf bondiau, ecwiti ac arian parod) a'r modd y mae cyfrifoldebau'r cwmni am ddarpariaethau diogelu yn amodol ar reoliadau'r llywodraeth.

Mae Robeco yn adrodd cynnydd cadarnhaol ar dri amcan, sef cynllunio ymddeoliad asedau, sicrwydd ariannol ar gyfer cau mwyngloddiau, a hylifedd a hygyrchedd sicrwydd ariannol.

Mae cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud mewn 8 o'r 13 cwmni yr ymgysylltir â hwy, gydag un ymgysylltiad wedi dod i ben yn llwyddiannus. Daeth un ymgysylltiad i ben yn aflwyddiannus oherwydd – er gwaethaf nifer o ymdrechion i ymgysylltu â'r cwmni, gan gynnwys uwchgyfeirio i'r Prif Swyddog Gweithredol a chefnogi datganiad buddsoddwr ar y cyd - nid oedd y cwmni'n fodlon cymryd rhan yn yr ymgysylltu.

Hawliau dynol - diwydrwydd dyladwy ar gyfer ardaloedd y mae gwrthdaro yn effeithio arnynt ac sy'n wynebu risg uchel

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi trafod materion hawliau dynol yn fanwl ac wedi cael deialog uniongyrchol gyda Robeco ynghylch ei hymagwedd tuag at y mater hwn. Lansiwyd y thema ymgysylltu hon yn 2021, gan ganolbwyntio ar gwmnïau sy'n weithredol mewn maes y mae gwrthdaro yn effeithio arno neu sy'n wynebu risg uchel, gyda'r nod o leihau effaith andwyol eu gweithgareddau busnes ar bobl. Nododd Robeco nifer o ranbarthau sydd o ddiddordeb yma, gan gynnwys Myanmar, yr OPT a Tsieina. Gallai rheoli risgiau hawliau dynol yn wael ac yn annigonol gael effaith ar bobl a gwneud busnesau yn ogystal â buddsoddwyr yn agored i risgiau cyfreithiol, risgiau gweithredol a risgiau o ran enw da. Gall hyn gael effaith negyddol uniongyrchol ar eu trwydded i weithredu.

Adroddodd Robeco ar yr ymgysylltiadau â phob cwmni o fewn y thema ond nid oedd cynnydd cadarnhaol yn erbyn amcanion wedi'i wneud erbyn diwedd 2021.

Allryiadau carbon sero net

Mae cyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2050 yn hanfodol er mwyn atal newid yn yr hinsawdd ac osgoi canlyniadau na ellir eu dadwneud. Yn dilyn mwy o ffocws cymdeithasol ar liniaru newid yn yr hinsawdd, mae effaith y trawsnewid yn cael ei gwreiddio. Mae dewisiadau defnyddwyr yn newid, mae'r rheoliadau'n tynhau, mae technolegau'n datblygu ac mae rhanddeiliaid yn galw ar gwmnïau i gymryd camau i atal newid yn yr hinsawdd. Mae newid yn yr hinsawdd yn peri risg systemig i'r economi fyd-eang a'r system ariannol, gyda chwmnïau'n chwarae rhan allweddol wrth liniaru'r risgiau hyn. Ar yr un pryd, gall cwmnïau fanteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r trawsnewid a'r mesurau lliniaru. Fel buddsoddwyr, mae'n bwysig deall sut mae allyrwyr allweddol yn integreiddio risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn eu cynlluniau masnachol, yn ogystal â rhoi gwybod i'r cwmnïau am ein disgwyliadau ar eu cyfer.

Cafodd y thema hon ei datblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, a thynnir sylw at nifer o enghreifftiau isod. Mae cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ar bum cwmni yr ymgysylltwyd â hwy, gydag un ymgysylltiad wedi dod i ben yn llwyddiannus. Daeth un ymgysylltiad i ben yn aflwyddiannus gan fod y cwmni wedi dynodi ei fod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddefnyddio ffynonellau ynni allyriadau uchel ac ehangu cyfleusterau glo thermol. Bydd y cwmni hwn yn cael ei gynnwys yn yr ymgysylltiad newydd Cyflymu tuag at Gytundeb Paris, gydag amcanion mwy grymus.

Astudiaeth achos: Enel

Trwy gydol 2021, ymgysylltodd Robeco ag Enel. Roedd y ffocws penodol ar osod targedau hirdymor ar gyfer ei allyriadau cwmpas 3 o werthiant nwy naturiol i gwsmeriaid, sy'n cynrychioli 23% o gyfanswm yr allyriadau, a strategaeth ddatgarboneiddio ar gyfer gweithgareddau cynhyrchu nwy naturiol Enel. Yn ei Ddiwrnod Marchnadoedd Cyfalaf ar 24 Tachwedd, ymrwymodd Enel i ddatgarboneiddio'n llawn erbyn 2040, gan ddod â'i darged sero net blaenorol ymlaen ddegawd. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, ymrwymodd Enel i gynhyrchu a gwerthu ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn unig. Nod y cwmni yw cyrraedd 154 GW o gapasiti mewn ynni adnewyddadwy erbyn 2030, a fyddai, pe bai'n cael ei gyflawni, yn ei wneud yn weithredwr ynni adnewyddadwy mwyaf y byd yn seiliedig ar dargedau presennol cymheiriaid. Roedd y targed i leihau allyriadau cwmpas 3 o fusnes adwerthu nwy naturiol Enel yn gais penodol a wnaeth Robeco yn gynharach

eleni wrth i'r buddsoddwr arwain yr ymgysylltu o dan y fenter CA100+. Mae cyhoeddiad Enel felly yn gam enfawr ymlaen ac yn gosod y cwmni mewn sefyllfa arweiniol wirioneddol wrth iddo bontio i fodel busnes carbon isel.

Astudiaeth achos: ExxonMobil

Gosododd Exxon dargedau lleihau ar gyfer 2025 o ostyngiad o 15-20% mewn dwyster nwyon tŷ gwydr o lefelau 2016. Maent yn edrych yn debygol o gyflawni'r rhain bedair blynedd yn gynnar. Felly, ar 1 Rhagfyr 2021 gosododd Exxon dargedau newydd ar gyfer 2030 o lefelau 2016, sef gostyngiad o 20-30% mewn dwyster nwyon tŷ gwydr corfforaethol, gostyngiad o 40-50% mewn allyriadau i fyny'r gadwyn gyflenwi, gostyngiad o 70-80% mewn dwyster methan a gostyngiad o 60-70% mewn dwyster fflagu. Mae allyriadau absoliwt hefyd yn cael eu targedu i'w gostwng 20%. Maent hefyd yn bwriadu bod yn sero net yn eu gwaith anghonfensiynol o gynhyrchu olew a nwy yn y Basn Permaidd, sef 40% o'u cynhyrchiant olew a nwy yn yr Unol Daleithiau. I gyflawni hyn, bydd \$15b ar gael ar gyfer buddsoddiadau allyriadau is, ac i gyflymu twf eu busnes Datrysiadau Carbon Isel. Mae Robeco, fel rhan o CA100+, yn asesu a yw'r targedau hyn yn mynd yn ddigon pell gan ddefnyddio'r meincnod sero net.

Astudiaeth achos: Shell

Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddodd Shell gynlluniau i ailstrwythuro eu sefydliad. Byddant yn symud eu pencadlys i Lundain, gan uno eu dosbarthiadau cyfranddaliadau i un stoc fasnachadwy a symud eu preswylad treth i'r DU. Y rhesymeg yw y bydd yn rhaid i'r cwmni fynd drwy set o gaffaeliadau a gwarediadau portffolio i gyflymu eu strategaeth mewn perthynas â'r trawsnewidiadau ynni. Bydd y symleiddio corfforaethol yn gwneud hyn yn broses fwy esmwyth. Arweiniodd Robeco sgwrs rhwng Buddsoddwyr Sefydliadol yr Iseldiroedd a Phrif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd Shell. Fel rhan o herio'r rhesymau dros ddewis y DU dros yr Iseldiroedd, dywedodd Shell nad oedd dyfarniad y llys ar allyriadau Cwmpas 3 yn symbylydd i'r symudiad. Nid yw'n glir ychwaith sut y byddai'r newid hwn mewn strwythur yn effeithio ar yr achosion cyfreithiol hyn ar newid yn yr hinsawdd a gyhoeddwyd gan Yr Hag. Cafodd y cynnig ei gymeradwyo gan bron pob cyfranddaliwr, ac mae Robeco yn credu y bydd hyn yn gwneud y cwmni'n fwy ystwyth wrth iddo ailstrwythuro a mynd trwy broses o bontio ynni. Bydd Robeco yn parhau i fonitro gweithrediad y strwythur newydd. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2021, adroddodd Robeco yn ôl nad oeddent yn teimlo bod eu cynllun pontio ynni yn ddigon cyflym, a dywedodd Shell eu bod yn credu y byddai symleiddio ei strwythur yn helpu gyda hyn. Mae Robeco yn parhau i ymgysylltu â Shell, gan ganolbwyntio ar gyd-fynd â gofynion meincnod cwmni Sero Net CA100 + erbyn 2023. Nid yw'r datblygiadau hyn yn newid unrhyw beth yng nghynlluniau ymgysylltu Robeco.

Cyflymu tuag at Gytundeb Paris

Mae'r thema hon yn rhan o ymgysylltiad Dadleuon Byd-eang Robeco, gan gydnabod brys yr argyfwng hinsawdd a chanolbwyntio ar y cwmnïau hynny sydd eto i osod targedau lleihau nwyon tŷ gwydr neu sero net. Yn ogystal ag edrych ar ddangosyddion allweddol yn ymwneud â rheoli risg hinsawdd, roedd Robeco yn cynnwys haen ychwanegol sy'n nodi cwmnïau sy'n parhau i ehangu seilwaith pŵer glo thermol, gan ganiatáu i Robeco gategoreiddio cwmnïau yn seiliedig ar eu perfformiad a thargedu'r cwmnïau sy'n perfformio waethaf. Bydd pob un o'r cwmnïau yn y rhaglen yn derbyn llythyr yn amlinellu ein disgwyliadau o ran rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Bydd Robeco yn gweithio gyda rhanddeiliaid eraill wrth symud ymlaen â'r gwaith ymgysylltu hwn, gan gynnwys gorgyffwrdd â CA100+.

Lansiwyd y thema hon yn ystod y cyfnod adrodd fel rhan o'r rhaglen ymgysylltu ehangach ynglŷn â'r hinsawdd. O'r cwmnïau a oedd yn gallu cael eu hasesu'n llawn, dewiswyd y 13 a oedd yn y safle isaf er mwyn ymgysylltu â hwy'n well. Gan fod y thema hon newydd ei lansio, nid oedd unrhyw gynnydd cadarnhaol yn erbyn amcanion wedi'i wneud erbyn diwedd 2021.

Cyflawnir gwaith ymgysylltu ychwanegol gan Russell

Er bod Robeco yn cyflawni swyddogaeth stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ffurfiol, mae'r Bartneriaeth hefyd yn elwa o'r gweithgarwch stiwardiaeth y mae Russell yn ei wneud gyda'r daliadau portffolio yn Is-gronfeydd y Bartneriaeth. Mae gan Russell chwe maes ffocws ymgysylltu, sy'n cyd-fynd â barn Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys fel y'i diffinnir gan flaenoriaethau pleidleisio'r Bartneriaeth. Y meysydd ffocws hyn yw:

Maes	Ffocws
Yr Amgylchedd	Cyfalaf Naturiol: annog rheolaeth amgylcheddol gyfrifol a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau

Maes	Ffocws
	Y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd: hybu mwy o dryloywder ynghylch datgeliadau ac arferion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd
Cymdeithasol	Cyfalaf dynol: Gweithredu ar sut y mae cwmnïau'n denu, yn datblygu ac yn cadw gweithwyr wrth ddarparu amodau gwaith priodol Amrywiaeth a Chynhwysiant: Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith amrywiaeth ar berfformiad a diwylliant buddsoddi cwmni
Llywodraethu	Cyfansoddiad y bwrdd ac atebolrwydd: Gweithredoedd y bwrdd cyfarwyddwyr sy'n ganolbwynt i lywodraethu corfforaethol Digolledu prif swyddogion: Cysoni digollediad prif swyddogion gyda phwmpas corfforaethol

Mae Russell yn dilyn proses debyg i Robeco wrth nodi, cychwyn, gweithredu a gwerthuso eu gweithgarwch ymgysylltu. Amlinellir isod ddwy enghraifft o weithgarwch a wnaed gan Russell ar gwmnïau a ddelir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Newid yn yr Hinsawdd

Mae Russell wedi'i benodi'n gyd-fuddsoddwr arweiniol er mwyn ymgysylltu â chwmni gwasanaethau a datrysiadau ynni yn y DU trwy gyfrwng Climate Action 100+. Mae Russell wedi cael deialog reolaidd gyda'r cwmni gan ei fod yn ystyried cynnig pleidlais 'Lleisio Barn ar yr Hinsawdd' ac wrth ddatblygu ei Gynllun Pontio Hinsawdd. Anogodd Russell y cwmni i gyflwyno datrysiad o'r fath ac awgrymodd y dylid strwythuro'r cynllun pontio hinsawdd gyda Meincnod Sero Net CA100+ mewn golwg. Mae'n anodd asesu aliniad y cynllun pontio hinsawdd â 1.5°C oherwydd gwahanol weithgareddau'r busnes ac amrywiol daflwybrau datgarboneiddio'r gweithgareddau hyn o dan senarios datgarboneiddio. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys: cynhyrchu olew a nwy i fyny'r gadwyn gyflenwi; gwerthu nwy i gwsmeriaid i lawr y gadwyn gyflenwi; a chynhyrchu trydan. Mae cyd-arweinwyr CA100+ wedi canfod bod y cwmni'n adeiladol ac yn agored i ymgysylltu ar newid hinsawdd.

Rheoli cyfalaf dynol

Bu Russell yn ymgysylltu â chwmni yswiriant sy'n darparu arbedion tymor hir, yswiriant cyffredinol a chynhyrchion rheoli asedau ledled y DU trwy bartneriaeth Russell gyda Sustainalytics. Bu Russell yn trafod ymdrechion amrywiaeth a chynhwysiant y cwmni o ran recriwtio a cadw staff a diwylliant corfforaethol. Y flaenoriaeth i'r cwmni yw cyflawni ei dargedau rhywedd ac ethnig mewn swyddi arweinyddol. Fodd bynnag, y brif her yw i'r yswiriwr weithredu rhaglenni datblygu arweinwyr er mwyn i fenywod a grwpiau lleiafrifol dyfu. Er bod gan y cwmni sawl menter ar waith, nid ydynt yn targedu poblogaeth fawr. Soniodd y cwmni'n fyr am y ffocws ar bobl ag anableddau, ond ni roddodd wybodaeth fanwl. Mae'r ddeialog yn parhau.

Ymgysylltu â phartion eraill

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn destun ymgysylltu gan randdeiliaid eraill ac yn ceisio ymgysylltu mewn modd adeiladol lle bynnag y bo modd. Yn ystod y flwyddyn, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymgysylltu â Chyfeillion y Ddaear Cymru i drafod safbwynt Partneriaeth Pensiwn Cymru ar ddadfuddsoddi, gan ymateb hefyd i ymholiad Cyfeillion y Ddaear ynghylch ymchwil Prifysgol Augsburg ar bŵer dadfuddsoddi, gan amlinellu gwerth ymgysylltu dros ddadfuddsoddi. Ymatebodd y Bartneriaeth hefyd i lythyr gan Amnest Rhyngwladol ynglŷn â dod i gysylltiad â chwmnïau a gyhuddwyd gan y Cenhedloedd Unedig fel rhai sydd o bosibl yn gefnogol i dorri hawliau dynol yn Nhiriogaethau Meddianedig Palesteina.

Mae'r Bartneriaeth yn croesawu'r math hwn o ymgysylltu ac yn rhoi ystyriaeth i safbwyntiau a fynegwyd yn ystod deialog o'r fath wrth ffurfio polisi. Er enghraifft, mae'r ddeialog ynghylch hawliau dynol wedi'i godi fel mater parhaus gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn dilyn diwedd y flwyddyn a bydd yn ymddangos yn amlycach yng ngweithgarwch stiwardiaeth y dyfodol.

Sut yr ydym yn uwchgyfeirio pryderon

Gall Partneriaeth Pensiwn Cymru uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder yn uniongyrchol gyda Darparwyr Gwasanaethau er mwyn iddynt fynd i'r afael â hwy, ond mae hefyd yn dibynnu ar Ddarparwyr Gwasanaethau i uwchgyfeirio materion lle nad yw cynnydd yn cael ei wneud yn ystod y broses ymgysylltu. Mae'r craffu parhaus gan RISG yn cynnig fforwm ar gyfer trafod ac uwchgyfeirio, er y gall uwchgyfeirio godi yn yr un modd o ganlyniad i drafodaeth mewn fforymau eraill.

Cael adborth am faes sy'n peri pryder

Ar 20 Ionawr 2021 cyhoeddwyd erthygl yn Pensions Expert ar bwnc ffermio ffatri. Roedd yr erthygl mewn ymateb i gyhoeddiad o adroddiad gan World Animal Protection, a ddywedodd fod gan gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y DU tua £238m wedi'i fuddsoddi mewn cwmnïau da byw diwydiannol. Aeth yr erthygl ymlaen i restru'r 10 uchaf o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y DU sydd â'r buddsoddiadau mwyaf mewn cwmnïau cig a llaeth diwydiannol, a oedd yn cynnwys cyfeiriad penodol at Gronfa Cyfleoedd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru. Awgrymodd gwaith dadansoddi pellach fod pedwar o'r cwmnïau a enwyd yn cael eu dal o fewn y Gronfa.

Ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru, cododd Hymans Robertson y mater hwn gydag amrywiol Ddarparwyr Gwasanaeth y Bartneriaeth ynghyd â BlackRock, rheolwr goddefol y Bartneriaeth i nodi'r pryder a deall pa ymgysylltu sydd wedi'i wneud os o gwbl. Derbyniwyd gwybodaeth am weithgarwch ymgysylltu gan bob plaid, gyda Russell hefyd yn codi'r mater gyda'r rheolwyr gwaelodol yn y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang.

Trwy'r broses hon, nododd Partneriaeth Pensiwn Cymru y canlynol:

- Roedd Robeco eisoes wedi ymgysylltu â dau o'r pedwar cwmni a nodwyd (Tyson a CP Group), ar ôl gorffen eu gweithgarwch ymgysylltu yn llwyddiannus.
- Nododd Russell fod y rheolwyr gwaelodol wedi cynnal gwaith ymgysylltu uniongyrchol â'r pedwar cwmni. Roedd un rheolwr, Numeric, eisoes wedi cyd-lofnodi llythyr at ddau o'r cwmnïau (Tyson a JBS Foods Group) a gydlynwyd gan FAIRR mewn perthynas â risgiau llafur mewn cadwyni gwerth protein byd-eang.
- Tynnodd BlackRock sylw at y gwaith ymgysylltu â saith o'r 15 cwmni a enwir yn yr adroddiad a'u cefnogaeth flaenorol i gynnig gan gyfranddalwyr ar ddiwydrwydd dyladwy hawliau dynol o fewn Tyson.

Er i Bartneriaeth Pensiwn Cymru gael sicrwydd gan ein Darparwyr Gwasanaethau bod camau wedi'u cymryd wrth ymgysylltu â'r cwmnïau a nodwyd, er nad yn uniongyrchol ynghylch y mater a godwyd, nodwyd nad oes gan y Bartneriaeth flaenoriaeth ymgysylltu na phleidleisio yn gysylltiedig â lles anifeiliaid. Nodwyd ymhellach fod yna ystod ehangach o faterion ar draws arferion ffermio a rheoli da byw, gan gynnwys allyriadau, datgoedwigo, torri hawliau dynol a llygredd, sydd i gyd yn ymwneud â'r blaenoriaethau presennol a osodwyd gan y Bartneriaeth.

Er na chymerwyd camau pellach yn syth, bydd y Bartneriaeth yn codi'r mater hwn fel thema ymgysylltu bosibl gyda Robeco ar gyfer 2023.

Uwchgyfeirio gan Robeco

Mewn ymgysylltu sylfaenol ac ymgysylltu uwch, gellir mynd i'r afael â diffyg ymateb gan gwmni trwy geisio ymgysylltu ar y cyd, mynd i gyfarfod cyfranddalwyr yn bersonol, neu rannu pryderon yn ysgrifenedig gyda'r bwrdd. Gall hyn hefyd arwain at gyfarwyddiadau pleidleisio dirprwyol niweidiol ar eitemau agenda cysylltiedig mewn cyfarfod cyfranddalwyr. Ychwanegir mesur uwchgyfeirio ychwanegol at y rhaglen ymgysylltu uwch, o ystyried bod y math hwn o ymgysylltu wedi'i anelu at gynnal y normau lleiaf posibl ar gyfer ymddygiad disgwylidiedig mewn perthynas â Chanllawiau UNGC ac OECD.

Mewn ymgysylltu uwch, mae Robeco o'r farn mai'r cam cyntaf yw mynd i'r afael â'r tor-contract ac yna rhoi systemau rheoli priodol ar waith i atal tor-contract o'r fath rhag digwydd eto yn y dyfodol. Caiff y pum amcan canlynol eu pennu felly:

1. Mynd i'r afael â'r tor-contract
2. Datblygu a gweithredu polisi yn y maes perthnasol
3. Sefydlu deialog adeiladol gyda rhanddeiliaid
4. Gweithredu systemau rheoli risg effeithiol

5. Tryloywder ynghylch y tor-contract a'r ymdrechion adfer

Pan fydd ymgysylltu yn arwain at gau'r amcan cyntaf a'r trydydd amcan yn llwyddiannus (h.y. mynd i'r afael â'r tor-contract a sefydlu deialog adeiladol gyda rhanddeiliaid) ac o leiaf un amcan ychwanegol, gofynnir eto i bwyllgor Ymddygiad Dadleuol Robeco gymeradwyo cynnig i gau'r achos ymgysylltu yn llwyddiannus, yn seiliedig ar drosolwg o'r ddeialog ac asesiad o'r pum amcan. Mae'n bwysig nodi hefyd bod achos ymgysylltu sydd wedi'i gau yn aflwyddiannus yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor o leiaf yn flynyddol, er mwyn sicrhau bod y tor-contract yn cael ei ailasesu mewn modd amserol. Rhoddir uchafswm o dair blynedd o ymgysylltu â chwmni yn y rhaglen Dadleuon Byd-eang. Mae Robeco bellach yn cymhwyso proses uwchgyfeirio lymach o gymharu â'r un flaenorol, lle gall yr achos gael ei gau'n aflwyddiannus cyn y tair blynedd lawn. Disgwylir i hyn greu mwy o atebolrwydd i gwmnïau adfer yr effaith a achosir ac i wella'r modd y caiff y mater ei reoli, gan felly leihau'r risg o dor-contract tebyg yn y dyfodol.

Amlinellir y llinell amser uwchgyfeirio ar gyfer ymgysylltu uwch isod:



Os nad yw ymgysylltu gwell yn arwain at y newid a ddymunir, bydd Robeco yn hysbysu Partneriaeth Pensiwn Cymru, a all wedyn benderfynu rhoi cyfarwyddyd i Russell ynghylch a ddylid eithrio cwmni o Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru ai peidio. Mae Robeco o'r farn mai cam olaf yn unig yw eithrio cwmnïau o'r bydysawd buddsoddi, ac mai dim ond ar ôl ymgysylltu y dylai hyn ddigwydd.

Mae'r Bartneriaeth yn nodi bod yna sawl enghraifft o uwchgyfeirio a wnaed gan Robeco yn ei weithgarwch ymgysylltu. Nodir yr enghreifftiau hyn ar dudalennau 42 a 43 o'r adroddiad hwn, gan nodi bod Robeco wedi ceisio uwchgyfeirio deialog i aelodau uwch y sefydliad. Yn yr enghreifftiau a roddir, y bwriad yw bod yr ymgysylltu yn parhau.

Astudiaeth achos: Norilsk Nickel

Cyfnod ymgysylltu: Mehefin 2020 – Gorffennaf 2021

Y Mater: Ym mis Mai 2020, gollyngodd tanc tanwydd sy'n eiddo i is-gwmni Norilsk Nickel, NTEC gan ryddhau tua 21,000 tonnall (oddeutu 150,000 casgen) o danwydd disel, a deithiodd 12km i afon Ambarnaya. Yn ystod Chwarter 2 2020 a Chwarter 1 2021, adroddodd y cwmni am ddau ddigwyddiad ychwanegol yn ymwneud â'r amgylchedd ac iechyd a diogelwch.

Y Camau a Gymerwyd: Cyn hynny, bu'r cwmni'n ymgysylltu â Robeco am dair blynedd ynghylch achos arall o fynd yn groes i egwyddor amgylcheddol UNGC yn gysylltiedig ag allyriadau sylffwr gormodol. Yn 2018 darparodd y cwmni ddigon o dystiolaeth bod y tor-contract wedi'i godi. O ystyried yr hanes ymgysylltu hwn, ym mis Mehefin 2020 dewisodd Robeco gael cyfnod ymgysylltu o flwyddyn, gydag amcanion llym a chan ddisgwyl cynnydd sylweddol.

Canlyniad: Sbardunodd y cyfuniad o'r gollyngiad disel a'r ddau ddigwyddiad ychwanegol bryder ynghylch diffyg goruchwyliaeth a methiant cyffredinol mewn rheoli risg yn y Grŵp Norilsk Nickel ehangach. Ymhellach, roedd pryderon am y risgiau mewn perthynas â'r rhew parhaol sy'n toddi yn Rwsia. Ym marn Robeco roedd yr achosion o dorri rheolau amgylcheddol yn y cwmni yn systemig eu natur ac yn mynd yn groes i egwyddorion UNGC. Ar y pwynt hwn barnwyd nad oedd parhau i ymgysylltu â'r cwmni yn ddefnyddiol bellach, a chaewyd yr ymgysylltiad yn aflwyddiannus. Ychwanegwyd y cwmni at restr wahardd Robeco.

Uwchgyfeirio gan Russell

Mae Russell yn gweithio gyda'i bartneriaid sy'n is-ymgynghorwyr ac yn cynnal llinellau cyfathrebu agored i drafod unrhyw bryderon am faterion penodol. Bydd Russell hefyd yn cynnal gwaith ymgysylltu ar y cyd â rheolwyr gwaelodol i gynyddu'r tebygolrwydd o gael canlyniadau cadarnhaol. Pan fydd cwmni'n methu ag ymateb a/neu ddim yn datblygu dro ar ôl tro ar hyd llwybr tuag at weithredu, bydd Pwyllgor Perchnogaeth Weithredol Russell yn penderfynu a ddylid symud yr ymdrech honno i gamau uwchgyfeirio.

Astudiaeth achos: pryderon hawliau dynol o fewn cadwyn gyflenwi cynhyrchydd bwyd

Y Mater: Cafodd penderfyniad cyfranddalwyr ei gyflwyno yn 2020 yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol cynhyrchydd dofednod o'r Unol Daleithiau, yn gofyn am adroddiad ar hawliau dynol. O ystyried y diwydiant, teimlai'r cyfranddalwyr y gallai fod yn agored i sawl risg yn gysylltiedig â hawliau dynol yn ei weithrediadau ei hun yn ogystal â'r rhai oedd yn cael eu dal gan ei dyfwyr contract. Fel y gwelwyd gyda chwmnïau eraill, gall honiadau o fynd yn groes i hawliau dynol achosi, fan lleiaf, niwed i enw da cwmnïau penodol a gall effeithio'n ddramatig ar werth cyfranddalwyr.

Y Camau a Gymerwyd: Yn y pen draw pleidleisiodd Pwyllgor Russell i wrthod y cynnig yn 2020 ar y sail y byddai ymgysylltu yn arf mwy effeithiol i gyfathrebu ynghylch pryderon. Ym mis Awst 2020 cyfarfu Russell â'r cwmni i drafod eu hymateb i gynnis y cyfranddalwyr. Tynnodd y cwmni sylw at y ffaith eu bod mewn gwirionedd wedi gweld gostyngiad mewn anafiadau gweithwyr yn y cyfnod 2017–2019 o ganlyniad i'w hymdrechion, a'u bod ar y blaen i'w cymheiriaid yn eu hymdrechion cynaliadwyedd wedi iddynt fabwysiadu fframwaith datgelu SASB yn 2019. Fodd bynnag, er bod gan Russell farn gadarnhaol yn gyffredinol ar ymdrechion y rheolwyr o fewn safleoedd y cwmni ei hun, nid oedd y cwmni'n gallu amlinellu cynllun ar gyfer sgrinio tyfwyr contract. O ganlyniad gwnaeth Russell uwchgyfeirio'r cwmni i'w fonitro ymhellach.

Canlyniad: Ar ôl gweld nad oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud ar liniaru risg yn y gadwyn gyflenwi yn 2021, pleidleisiodd Pwyllgor Russell o blaid ailadrodd cynnis y cyfranddalwyr yn gofyn am adroddiad diwydrwydd dyladwy ar hawliau dynol.

Beth nesaf?

Rydym yn ffodus oherwydd lefel y cydweithio sy'n bodoli o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru a hoffem ddiolch i'r Awdurdodau Cyfansoddol am eu cyfraniadau parhaus, yn enwedig gwaith parhaus ein RISG. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o atgyfnerthu a mireinio, gan adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd gennym o ran stiwardiaeth, risg hinsawdd a Buddsoddi Cyfrifol yn fwy cyffredinol. Rydym yn awr yn gweld y flwyddyn 2022/23 fel un lle gallwn barhau i adeiladu ar ein hymrwymiaidau Buddsoddi Cyfrifol. Yn benodol:

- Bydd risg hinsawdd yn parhau i fod yn ffocws i Partneriaeth Pensiwn Cymru. Byddwn yn parhau i annog Robeco i ganolbwyntio eu hymdrechion stiwardiaeth yma, gan eu herio i wneud mwy, a sicrhau y gwneir cynnydd wrth ymgysylltu ynghylch dyheadau risg hinsawdd a sero net. Mae'r paratodau ar gyfer ein hadroddiad TCFD cyntaf eisoes ar y gweill a byddwn yn dechrau trafodaethau gyda Senedd Cymru ynghylch yr hinsawdd. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â phob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch eu uchelgeisiau hinsawdd unigol, gan gynnwys gwaith ar ein hadroddiad hinsawdd Cymru gyfan.
- Byddwn yn parhau i wella'r adroddiadau ar gyfer ein rhanddeiliaid, gan gynnwys adroddiadau penodol i Is-gronfeydd sy'n ein galluogi i olrhain ein cysylltiadau â risg hinsawdd a chanlyniadau Pleidleisio ac Ymgysylltu yn well.
- Bydd yna ffocws parhaus ar Bleidleisio ac Ymgysylltu, gan gynnwys offer a fydd yn caniatáu i ni fonitro data cyn pleidleisio ac adroddiadau ar ôl pleidleisio yn well, a fframwaith Pleidleisio ac Ymgysylltu a fydd yn caniatáu i ni gyfrannu'n well at broses dewis thema ymgysylltu ein darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu.
- Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n Darparwyr Gwasanaethau i ddatblygu strategaeth Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy ac amrywiaeth o gronfeydd Marchnadoedd Preifat. Mae ystyried stiwardiaeth a risg hinsawdd yn ganolog i'r gwaith hwn.
- Rydym wedi penodi adnodd mewnol sy'n ymroddedig i gefnogi Partneriaeth Pensiwn Cymru wrth gyflawni ein hamcanion Buddsoddi Cyfrifol.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar yr holl uchelgeisiau hyn yn ychwanegol at yr amrywiol nodau eraill a bennwyd yn yr adroddiad hwn ac rydym yn parhau'n obeithiol y gallwn barhau â'r cynnydd da sydd wedi'i wneud. Ymhlith y meysydd eraill yr hoffem weld gwelliant yn arbennig ynddynt y mae gwella ein gallu i fod yn rhagweithiol, yn enwedig ynghylch ein deialog gyda Robeco, a gwella'r wybodaeth yr ydym yn gallu ei darparu i'n rhanddeiliaid, gan ddangos y canlyniadau cadarnhaol yr ydym o'r farn ein bod yn eu creu.

Cysylltwch â ni

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, dylech gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

Cyfeiriad post: Partneriaeth Pensiwn Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

E-bost: partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Ffôn: (01267) 224136

Mae rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru a diweddariadau parhaus ar gynnydd y Bartneriaeth ar gael ar y wefan a'r dudalen LinkedIn.

Gwefan: <https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>

Linked-In: <https://www.linkedin.com/Cwmni/wales-pension-partnership-PPC/>

Atodiad 1: Egwyddorion

Yr Egwyddor	Cyfeirnodau tudalen
1: Pwrpas, strategaeth a diwylliant	4-6
2: Llywodraethu, adnoddau a chymelliadau	7-11
3: Gwrthdaro buddiannau	12-13
4: Hyrwyddo marchnadoedd sy'n gweithio'n dda	18, 24-25
5: Adolygu a sicrwydd	14-16
6: Anghenion cleientiaid a buddiolwyr	11, 17-18, 20-21, 26
7: Stiwardiaeth, buddsoddi ac integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu	19-21
8: Monitro rheolwyr a darparwyr gwasanaethau	22-23
9: Ymgysylltu	9, 35-41
10: Cydweithio	25, 28, 38-41
11: Dwysâd	42-44
12: Ymarfer hawliau a chyfrifoldebau	14-15, 20, 29-34

Atodiad 2: crynodeb adolygu'r polisi

Yn y tablau isod: mae ● yn dangos bod yr ymrwymiad wedi'i gyflawni; mae ● yn dangos y gwnaed peth cynnydd yn erbyn yr ymrwymiad; mae ● yn dangos na wnaed unrhyw gynnydd.

Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Cyf	Ymrwymiad/Datganiad Polisi	Statws
3.3	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf yn flynyddol i benderfynu ar eu gofynion buddsoddi unigol a'u dyheadau mwy hirdymor.	●
3.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried cyfleoedd yn deillio o gael gwell dealltwriaeth o ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.	●
4.3	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gyda'i darparwyr i sicrhau y gellir datblygu mecanwaith cyffredin ar gyfer monitro risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer holl asedau'r Bartneriaeth.	●
4.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog, trwy ei chynrychiolwyr, pob cwmni y buddsoddir ynddynt i ddatgelu yn unol â gofynion y TCFD.	●
6.1, 6.3	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl y bydd yr holl reolwyr buddsoddi a gyflogir o fewn y Bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth briodol i'r holl risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd a risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eraill wrth wneud penderfyniadau yn eu priod bortffolios. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu â'i reolwyr buddsoddi yn barhaus i sicrhau bod ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn cael eu hadlewyrchu'n dryloyw mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac y gellir darparu tystiolaethu iawn o'r dull a gymerwyd i reoli ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.	●
6.2	Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl, yn yr holl amgylchiadau perthnasol, y bydd ei rheolwyr buddsoddi yn llofnodi'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a Chôd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU.	●
7.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gyda'i rheolwr buddsoddi goddefol i ystyried sut y gellir ymestyn egwyddorion pleidleisio'r Bartneriaeth i gynnwys asedau a reolir gan ei rheolwr buddsoddi goddefol.	●
7.5	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion am unrhyw bleidleisiau na fwriwyd mohonynt ac esboniadau pan na fwriwyd pleidleisiau yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt bob chwarter. Bydd y Bartneriaeth yn trafod unrhyw faterion o bwys gyda'i rheolwyr buddsoddi.	●
7.6	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu'r Polisi Pleidleisio ar y cyd â'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, ei hymgynghorwyr a'i rheolwyr buddsoddi yn flynyddol.	●
7.12	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn adroddiadau ar unrhyw waith ymgysylltu a wnaed gan ei rheolwyr buddsoddi yn flynyddol.	●
8.1	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn mynd ati'n barhaus i adnabod ac asesu cyfleoedd cydweithio posibl, gan gynnwys mentrau buddsoddi cyfrifol dan arweiniad buddsoddwyr.	●
8.3	Ar y cyd â'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ceisio adnabod mentrau a chydweithrediadau buddsoddi cyfrifol dan arweiniad buddsoddwyr y gellir rhoi cefnogaeth weithredol iddynt.	●
8.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog rheolwyr buddsoddi gwaelodol i gymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu cydweithredol neu gefnogi hyn lle ystyrir ei fod er budd ariannol cyffredinol pennaf yr Awdurdodau Cyfansoddol.	●
8.5	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i gydweithio gyda'r prosiect cydweithredol mewn buddsoddi cyfrifol ar draws cronfeydd pan ddaw unrhyw gyfle addas i wneud hynny.	●
9.1	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn datblygu metrigau monitro priodol ar gyfer ei bortffolios.	●
9.3	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn mynnu fod cymhwysedd buddsoddi cyfrifol yr holl reolwyr buddsoddi a benodir yn cael ei adolygu'n flynyddol. Ar y cyd â'r partïon perthnasol, bydd y	●

Cyf	Ymrwymiad/Datganiad Polisi	Statws
	Bartneriaeth yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei rheolwyr buddsoddi.	
9.4, 10.2	Yn flynyddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn llunio a chyhoeddi adroddiad stiwardiaeth yn manylu ar y camau a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd. Bydd y Bartneriaeth yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad stiwardiaeth blynyddol yn unol ag egwyddorion Còd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU 2020.	●
10.1	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn sicrhau y bydd o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar Fuddsoddi Cyfrifol.	●
10.3	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn ei chredoau buddsoddi cyfrifol ac yn ei dulliau o fonitro a mesur.	●
10.5	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu i ba raddau y mae pob parti yn cadw at y polisi hwn yn flynyddol. Bydd y Bartneriaeth yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad fel rhan o'u hadroddiad stiwardiaeth a llywodraethu blynyddol.	●

Polisi Risg Hinsawdd

Cyf	Ymrwymiad/Datganiad Polisi	Statws
13	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgynghori ag Awdurdodau Cyfansoddol mewn perthynas â'u hamcanion hinsawdd, yn flynyddol o leiaf, ac i ddeall yn llawn pa ddatrysiadau gweithredu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu hamcanion a'u hymrwymiaidau.	●
14	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i ddatblygu a hwyluso datrysiadau buddsoddi sy'n galluogi pob Awdurdod Cyfansoddol i gyflawni ei amcanion a'i ymrwymiaidau o safbwynt yr hinsawdd.	●
15	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'i Hawdurdodau Cyfansoddol, yn ceisio cydweithio i ddatblygu datrysiadau buddsoddi sy'n bodloni amcanion ac ymrwymiaidau hinsawdd yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.	●
18	Yn flynyddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn asesu a yw ei hymarfer ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi nodi amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn fodlon ei gefnogi.	●
23	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn Adroddiadau Monitro Risg Hinsawdd chwarterol ar gyfer ei His-gronfeydd Ecwiti ac mae'n bwriadu ymestyn y math hwn o adrodd i'w His-gronfeydd Incwm Sefydlog.	●
24	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i hwyluso dadansoddiad senario hinsawdd yn barhaus ar draws asedau a gaiff eu dal o fewn y Bartneriaeth i sicrhau bod y Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol o'r risgiau hinsawdd posibl o fewn Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.	●
25	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol sy'n gysylltiedig â risg hinsawdd ar gyfer ei rhanddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal ymarfer adnabod anghenion hyfforddiant blynyddol, ar y cyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Dyma'r mecanwaith y mae'r Bartneriaeth yn ei ddefnyddio i fesur gofynion hyfforddiant risg hinsawdd ei rhanddeiliaid.	●
28	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn flynyddol o leiaf, yn adolygu ymagwedd pob un o'i rheolwyr buddsoddi tuag at integreiddio Risg Hinsawdd.	●
29	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgysylltu â'r cwmnïau y buddsoddir ynddynt ar faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys cynnydd yn y datgeliadau gan gwmnïau i fuddsoddwyr ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.	●
31	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro newidiadau yn arfer y farchnad i sicrhau bod y Bartneriaeth yn gwbl ymwybodol o newid mewn arfer gorau a dichonoldeb monitro risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei his-gronfeydd di-ecwiti yn flynyddol o leiaf.	●

32	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gofyn i'w rheolwyr buddsoddi fonitro'r cysylltiad â risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu hadroddiadau chwarterol i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol.	●
35	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog, trwy ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a'i rheolwyr buddsoddi, pob cwmni y buddsoddir ynddynt i ddatgelu yn unol â gofynion y TCFD.	●
34, 36	Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru uchelgais i adrodd ar gynnydd ar gamau a wnaed i fynd i'r afael â risg hinsawdd yn unol â'r fframwaith a amlinellir gan y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd. Bob blwyddyn bydd y Bartneriaeth yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad yn manylu ar y camau a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd.	●